

ECO'r Wyddfa

Rhif: 440
Chwefror 2016
Pris: 70c



Dim ond maes chwarae?

Mae eleni'n 'Flwyddyn Antur Cymru' sy'n anelu at fod (yn ôl Llywodraeth Cymru) "yn gyrchfan antur blaenllaw o fewn Ewrop" ac yn "croesawu anturiaethwyr o bob oedran, gallu a diddordeb." Mae pentref Llanberis eisoes wedi ei ddisgrifio fel "Prifddinas Antur Cymru". Yn ddiweddar hefyd, cyhoeddodd Rough Guides fod Cymru yn un o'r deg gwlad orau yn y byd y dylid ymweld â hi, gan ei disgrifio fel "one of the finest natural playgrounds in Europe". A chroesawyd y fath ganmoliaeth gan bawb sy'n ymwneud â'r busnes twristiaeth. Mae hynny'n naturiol: mae cynnydd mewn busnes yn golygu cynnydd mewn elw.

Ond mae ochr arall i'r geiniog hefyd. Rhoddwyd sylw rai misoedd yn ôl yn yr "Eco" i'r llastr ar Ddôl y Goeden yn Llanberis yn dilyn un o'r digwyddiadau antur. Yn ystod misoedd olaf y llynedd hefyd bu cyfarfodydd yn yr ardal dan nawdd Parc Cenedlaethol

Eryri yn trafod y problemau sy'n gysylltiedig â'r cynnydd mewn twristiaeth ar ein mynyddoedd, ac yn enwedig ar Yr Wyddfa. Mae timau gwasanaethau achub megis Llanberis, Ogwen, Aberglaslyn ac eraill dan bwysau cynnyddol oherwydd yr ymchwydd mewn ymwelwyr dibrofiad sy'n cyrchu'r ucheldir. Nid problem dymhorol mohoni bellach 'chwaith. Dros y Calan, gadawyd tuniau bwyd ci a photeli siampên gwag ar gopa'r Wyddfa. Mae giatiau'n cael eu gadael ar agor a chwn yn rhedeg yn rhydd. Oes yna ddadl bellach dros sefyll yn ôl a cheisio dadansoddi'r darlun cyfan fel y gellir cael gwell rheolaeth arno? Mae son am drethu gwirfoddol a thrwyddedu digwyddiadau (gweler cofnodion Cyngor Llanberis ar dudalen 27) Ydi gyrru'r economi a'r chwant am elw yn ein harwain yn ddall tuag at erchwyn y dibyn? Ac ai pendraw ein bodolaeth yw bod yn faes chwarae i ddieithriaid?

ECO'r Wyddfa

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'RECO 2015

Rhifyn
Mawrth

Copi i law
Chwefror 21

Bwndelu
Mawrth 4

Ble
Llanrug

RHIF 440
Chwefror 2016

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bryn y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Rhian Elin George, Swn yr Egan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI
DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid 76
dylunio graffeg
07766956673

LLYTHYRAU

Ar Gymdeithasau a Chanolfannau plwyf
Llanddeiniolen.

Annwyl Gyfeillion,

Yn y dyfodol agos bydd Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn lawnsio ei gwefan. Mae hyn yn rhan statudol o weithgarwch y Cyngor. Nid materion y Cyngor Cymuned yn unig fydd yn britho'r tudalennau.

Fel y gwyddoch, mae'r plwyf yn un o'r rhai mwyaf yng Nghymru, yn cynnwys pentrefi Bethel, Rhiwlas, Clwt y Bont, Penisarwaun, Brynrefail, Deiniolen, Seion a Dinorwig. Gall rhywun ddychmygu y nifer o gymdeithasau a chanolfannau sy'n britho'r ardal. Ein bwriad fel Cyngor yw agor y wefan i hysbysebu mudiadau, cymdeithasau a.y.y.b. Bydd hefyd yn amlygu'r gwahanol weithgareddau i newydd-ddyfodiaid.

Am ragor o wybodaeth am y fenter gyffrous hon, cysylltwch a Chlerc y Cyngor, Eleri Bean, Bwthyn Isaf, Deiniolen, Caernarfon. LL55 2LS. Ffon: 01286 871757 e-bost: eleribean@btinternet.com

Gobeithio y manteisiwch ar y cynnig hwn.

Richard Llwyd Jones,
Cynghorydd Ward Bethel,
Cyngor Cymuned Llanddeiniolen
01248 670115
richard.llwyd@yahoo.co.uk

Apêl am gyfraniadau i gofio hanes y genedl

Annwyl ddarlennwyr,

Mae'n ganrif ers y Rhyfel Mawr ac mae gymaint o'n treftadaeth heddwch ac effaith y rhyfel ar Gymru eto i'w ddatgelu. Ond ni ddaw'r hanes yma i'r fei oni bai am ymdrechion unigolion, teuluoedd a grwpiau cymunedol wrth wirfoddoli i ymchwilio a chyflwyno'r hanes. Yn aml ceir gwraidd hanes diddorol yn y papur bro neu gan y gymdeithas hanes lleol. Nawr dychmygwch werth yr ymdrech o gasglu'r holl ymchwil yma ynghyd fel cenedl, gan sicrhau ei fod ar gael yn ddigidol ar ffurf hanesion a delweddau (wedi eu sganio gyda chymorth Casgliad y Werin). Dyma'r ysgogiad tu ôl i brosiect Cymru dros Heddwch. Ond dim ond tair blynedd sydd gennym bellach i gasglu'r holl 'hanesion cudd' yma. Hanesion all fod yn gyfarwydd i chi efallai ond, heb gymorth gennych i chwilota ac i rannu, a allai fynd yn angof i'r cenedlaethau i ddod. Gall fod yn hanes effaith rhyfeloedd y ganrif ddiwethaf ar eich cymuned, hanes gwrthwynebwyr cydwybodol lleol, cyfraniad eich bro i wyl neu ymgyrch heddwch, ymdrechion mudiadau lleol, neu lenyddiaeth a chelf yn dehongli agweddau o anghydfod/heddwch.

I gynnwys eich ymchwil yn y darlun mawr cenedlaethol, a fydddech mor garedig a chysylltu â www.cymrudrosheddwwch.org neu hannahuws@wcia.org.uk am daflen 'Hanesion Cudd/Hidden Histories', neu galwch 01248 672104 os am sgwrs cyn dechrau arni.

O gofio cyfraniad papurau bro fel ystorfa o hanes lleol yr ardal, mawr yw ein diolch rhagflaen,

Cofion
Hanna a Ffion

Cydlynwyr Cymunedol Cymru dros Heddwch

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

£20: Er cof am James G. Jones, (Jimmy Bwtch) Mair a'r teulu; Er cof am Nancy Jones, Bryn Bella, Newton Street, Llanberis.

£10: Mrs Mair Jones, Erw Gain, Stad Eryri, Bethel; Mr Brian Sharpe, Ael y Bryn, Bethel; Mrs Elizabeth Williams, 14 Rhydfadog, Deiniolen; Ann Walker (Tan y Bwlch gynt) er cof am ei mam, Alice Griffith; Mrs Beryl Griffith, 5 Maes Gwylfa, Deiniolen; Kate Owen, 8 Hafan Elan, Llanrug.

CYLCH LLENYDDOL CAERNARFON A GWYRFAI

Cynhelir cyfarfod o Gylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï ar nos Fawrth, 16eg Chwefror, yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon am 7.30 o'r gloch. Y siaradwr gwadd fydd yr Athro Gwyn Thomas a thestun ei ddarlith fydd "Cerdd a Llun". Bydd croeso cynnes iawn i bawb. Noddir y digwyddiad gan Llenyddiaeth Cymru.



HUW OWEN
PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN
O BROFIAD
Ffôn- 01286 677668
Symudol-
07940023159
Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG
Eboist- lisa.huw@btinternet.com

Yn ystod y mis aeth heibio

• A daeth y llifogydd ar Ddydd Gŵyl San Steffan! Diolch i'r drefn nad Gŵyl San Swithin oedd hi – er ei bod wedi glawio'n ddyddiol ers diwedd Hydref, a'r ddaear yn ddirlawn. Bu gweithwyr Cyngor Gwynedd, y gwahanol asiantaethau a degau o wirfoddolwyr yn cynorthwyo ar y diwrnod ac wedi hynny, a diolch amdanynt. Ond daeth cwynion hefyd am ddiffyg rhagweld ac am ddiffyg gweithredu mewn pryd. Mae'r ddadl ynglŷn â thraenio tir neu beidio yn un gymhleth, a'r amgylchiadau'n amrywio o ardal i ardal. Ac nid yw'r cadwriaethwyr a'r ffermwyr wastad yn gweld lygad yn llygad! Ond gall pob un ohonom wneud ein rhan drwy waredu sbwriel – yn enwedig plastig – yn y bin, ac nid ar ochrau'r ffyrdd neu dros ben cloddiau lle caiff ei olchi i fân nentydd a chreu tagfeydd sy'n arwain at orlifo. Ac o sôn am sbwriel...

• Fis Tachwedd y llynedd dechreuwyd casglu sbwriel bob tair wythnos yn Arfon. Mae'r patrwm hwn yn bodoli yn Nwyfor ers Hydref 2014 ac ym Meirionnydd ers Mehefin 2015. A bu protestiadau am y drefn newydd ym mhob ardal. Mae ystadegau a ryddhawyd yn ddiweddar yn dangos fod y sustem newydd yn llwyddo yn Nwyfor a Meirionnydd, gyda chanrannau llai o wastraff cartref yn cael ei anfon i safleoedd mewnlenwi tir, a chanrannau uwch o wastraff yn cael ei ail-gylchu. A dyna, wrth gwrs, yw'r nod. Dros wyliau'r Nadolig bu mwy o gwyno yn Arfon, ac ym mro'r "Eco" – gan unigolion a rhai cynghorwyr – ynglŷn â 'diffygion' y casgliadau. Rhoed y bai yn naturiol, ar weithwyr y Cyngor. Tybed nad oedd bai ar drethdalwyr hefyd? Sawl un oedd wedi rhoi eu biniau allan yn y stryd ddiwrnod cyn y casglu, a'r biniau rheini, a'u cynnwys, yn cael eu sgubo dros nos drwy'r gymdogaeth gan y stormydd gwynt cryfion? Sawl un hefyd sy'n rhy ddiog i wahanu eu sbwriel, gan roi popeth (yn blastig, gwydr, metel, papur a chardfwrdd) yn y bin gwyrdd nes ei orlenwi ymhell cyn i gyfnod y tair wythnos ddod i ben? Os ydi'r cap yn ffitio....



Llwyth o boteli plastig wedi eu golchi i'r lan ar afon Saint rhwng Pontrhythallt a Chrawia yn dilyn y llifogydd diweddar.

APÊL AM GYMORTH



Richard, Mary Wyn a Mair wedi recordio rhifyn Nadolig yr Eco.

Yn dilyn bwlch o ychydig fisoedd rydym wedi ail ddechrau recordio disgiau o gynnwys rhifynnau'r Eco ar gyfer y deillion. Mae rhyw 60 o bobl yn derbyn y disgiau yn rhad ac am ddim bob mis, ac mae'r disgiau yn cael eu danfon i'r cartrefi. Y man recordio yw Canolfan Cymorth y Deillion ar Stryd Fawr, Bangor. Os oes unrhyw un yn awyddus i dderbyn disg – o bell neu agos – gellir cysylltu â Bryn Williams yn y Ganolfan. Gellir cysylltu â Bryn ar 07900362656 neu e-bost brynstudio@hotmail.co.uk.

Fel arfer byddwn yn recordio o fewn wythnos i'r Eco ymddangos. Fe gymer rhyw ychydig dros awr i recordio a bydd grŵp o dri yn ddelfrydol. Yn amlwg, ni fydd pawb ar gael ar y diwrnod penodedig felly braf fuasai cael carfan y gellir galw arnynt. Fe ellir trefnu trafnidiaeth i gyrraedd Bangor os oes unrhyw anhawster. Os ydych yn teimlo y gellwch fod o gymorth gellwch gysylltu â mi, Richard Llwyd Jones ar 01248 670115.

North Wales
SIGNS

Gogledd Cymru **grid**⁷⁶

northwalessigns.com | 07766956673

Uned A9, Cibyn Ind Estate, Caernarfon

Arwyddion | Cerbydau | Digwyddiad

Llifogydd afon Saint.



Pont Pen Llyn yn gwrthsefyll holl rym y lli.



Pe bai'n dal i sefyll, byddai hen dafarn y Newborough dan ddwr.



Hen bont y rheilffordd ym Mhontrhythallt.



Dwr yn dylifo o Sgwar Penbont.



Deorfa Crawia dan warchae

CWMY GLO

Cydymdeimlad Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Hilda Orritt a'r teulu, Morannedd, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yn Llanberis.

Hefyd â Raymond Jones a'r teulu yn Llanberis (gynt o'r Swyddfa Bost) yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer, Gwyneth.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mrs Esme Jones, 24 Dôl Afon, ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed.

Diolch i'r Cyngor Cymuned am y Goeden Nadolig, i'r criw am ei gosod a'i haddurno ac yn arbennig i Musa, perchennog y Golchfa Ceir am gael trydan i'w goleuo.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau yn Eglwys Sant Mair Caernarfon bnawn Mawrth, 19 Ionawr. Yr oedd rhai aelodau o'r gangen gyda'r nos wedi ymuno a croesawodd yr arweinydd bawb i'r cyfarfod. Gofynnwyd i Pauline oleuo'r gannwyll i ddechrau. Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal Auriel a Hilda a cafwyd tôn o weddi ac adrodd gweddi ymddiheuriadau oddi wrth Pat, Joyce, Iris, Enid, Bet ac Iris. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd mis Rhagfyr a thrafodwyd materion perthnasol. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Nerys a Katie. Rhoddwyd y raffls ganddynt ac fe'u henillwyd gan Louie, Jenni a Nerys. Diolchwyd i'r gwesteion gan Hilda.

Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y gras yn Gymraeg a Saesneg.

Cyfarfod nesaf ar Chwefror 16.

Diolch

Dymuna Raymond, Carys, Nia, Gavin, Manon, Nathan, Leon, Valerie a theulu'r diweddar Gwyneth Jones ddiolch o galon i ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn eu profedigaeth o golli chwaer, chwaer yng nghyfraith a modryb annwyl iawn. Diolch

hefyd i'r holl gymuned am eu caredigrwydd a'i gofal am Gwyneth dros y blynyddoedd a hefyd am y llu o gardiau a negeseuon o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn ystod amser anodd a thrist. Diolch arbennig i staff Cartref Penisarwaen am ei gofal arbennig o Gwyneth a hefyd yn yr un modd i feddygfa Llanberis. Diolch i'r Parchedig Gwynfor Williams a'r Parchedig John Pritchard am eu gwasanaeth angladdol ac i Mr Gwynfor Jones o E. W Pritchard am ei drefniadau trylwyr.

Cyfarfod Cyhoeddus : Cofebau Cwm.

Cynhelir cyfarfod yn yr Ysgol Gynradd am 7 o'r gloch ar y 3ydd o Chwefror i drafod lleoliad i'r

placiau cofio a oedd gynt yn y Capel Bach a'r Eglwys.

DINORWIG

Marian Jones.
Ffôn: (01286) 870292

Dechrau Blwyddyn A ninnau ar ddechrau blwyddyn newydd, dymunwn anfon cyfarchion y flwyddyn i holl drigolion y pentref a holl ddarlennwyr yr Eco. Hefyd i'r rhai sydd mor anffodus a gorfod byw mewn cartrefi preswyl. Gobeithio am flwyddyn well i'r rhai na chafodd flwyddyn rhy dda y llynedd. Felly dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i bawb.

Pont Rhydfadog Yn ystod y llifogydd mawr a gawsom rai dyddiau cyn y Nadolig, fe fu i'r bont uchod fynd i ganlyn y llif, gan adael tipyn o lanast.


Dyma pryd mae angen diolch i Gyngor Gwynedd a'r Cynghorydd Elfed Williams am symud mor sydyn. Diolch i berchennog y tir am ei gydweithrediad parod ac i'r contractwr. Dyma lle y gwelsom pawb yn cydweithio yn ardderchog hefo'i gilydd. Er gwaethaf y gwynt, y glaw a'r storm i gyd, fe fu i'r gwaith o ailgodi'r bont gael ei wneud mawn byr amser, a gwaeth na'r cyfan yr oedd yr hogiau yn gorfod gweithio yn yr afon lle yr oedd cryn lif.

Mae gwaith arbennig o dda wedi ei wneud ar y bont ac yn haeddu canmoliaeth fawr i'r tîm i gyd. Diolch o galon iddynt. Mae hyn yn golygu canmoliaeth o'r modd uchaf. Mae yn werth ei gweld a hynny o gofio am y tywydd garw a'r sefyllfa yr oeddynt yn gorfod gweithio ynddo. Da iawn Cyngor Gwynedd a'r tîm i gyd. Diolch i chi.

Cydymdeimlad Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at Mr Eilian Jones, Ivy Cottage ac yna 3 Maes Eilian. Mab y diweddar Mr a Mrs William Jones a brawd ieuengaf Eunice yn Bethel ac Emyr ym Mangor. Eilian ar hyn o bryd yn dysgu yn Belgrade. Bu iddo golli ei ferch, Elin Mai, yn 34 mlwydd oed a oedd yn byw ym Mryste, yn sydyn. Yr oedd yn chwaer i Steffan. Profedigaeth fawr iawn a chydymdeimlwn yn fawr â thi, Eilian, a gobeithio y bydd iti gael nerth oddi uchod yn ystod yr oriau tywyll yma. Meddwl amdanat yn dy golled fawr.

Cofion Anfonwn ein cofion at Mrs Megan Morris ym Mhlas Garnedd, Llanberis. Hefyd deallaf fod llawer o gwyno ar hyn o bryd yn yr ardal, rhai wedi bod yn yr ysbyty. Dymunwn fel ardal adferiad llwyr a buan ichi i gyd.

Hen Luniau O Ble????



Yn ddiweddar daeth y ddau lun hwn i feddiant Gareth Roberts, Menter Fachwen. Yn anffodus, does gan neb syniad ble mae eu lleoliad. Mae'r cyntaf yn dangos stryd o dai yn cael ei hadeiladu – ond pryd? Mae'n ymddangos mai capel yw'r ail lun – ond pa gapel, ac ymhle?

Mae posibilrwydd wrth gwrs, nad lluniau o'r fro hon ydynt.

Mae'n bosib hefyd fod y capel (?) wedi ei ddymchwel a chapel newydd wedi ei adeiladu ar y safle, fel a ddigwyddai yn aml yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Sawl capel sydd yn y fro gyda'r geiriau "ail-adeiladwyd" wedi eu rhoi ar ei dalcen?

Dyna'r her i chi ddarllenwyr: ble mae'r lluniau hyn wedi eu tynnu? Ble mae'r stryd tai? Pa gapel a ddangosir?

Cysylltwch efo'r golygydd neu'n uniongyrchol efo Gareth ym Menter Fachwen. A gobeithio y cawn atebion erbyn y rhifyn nesaf!

CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf,
Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

W

Gwasanaethau Capel Caeathro

Chwefror 7fed am 2.00 o'r gloch: Gwasanaethir gan y Parch Marcus Robinson a gweinyddir Sacrament y Cymun.

Chwefror 21ain am 10.00 y bore: Parch Trefor Jones.

Chwefror 23ain (dydd Mawrth) Henaduriaeth Arfon: (manylion gan Lywydd y Mis, Eryl Jones)

Clwb Merched Ar nos Wener, Chwefror 26ain bydd aelodau y clwb yn ymweld â Theatr Bryn Terfel, Pontio, i weld perfformiad o Chwalfa gan T. Rowland Hughes, yn brydlon am 7.30 yr hwyr.

Cofio Ar Ragfyr 28ain 2015 bu farw Anthony Griffiths, Annedd, yn 61 mlwydd oed, gŵr annwyl Eirian a thad a chyfaill i Gareth a Arwel. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Sadwrn, Ionawr 2ail, yng Nghapel Caeathro dan ofal y Parch Eric Roberts. Roedd Tony yn gymeriad hoffus a phoblogaidd a daliai i fod yn llawen er ei waeledd. Daeth torf enfawr i'r angladd. Cydymdeimlwn yn gywir iawn â'r teulu oll yn eu galar ynghanol hirlwm gaeaf.

Gwellhad Dymunwn wellhad buan i Ifor Hughes ac i Dafydd Iwan, y ddau wedi cael cyfnod mewn ysbyty.

Llongyfarchiadau i Osian, Bryn Mair ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed a dymuniadau gorau iddo i'r dyfodol. Hefyd i Dewi a Mair Parry, Cefn Rhos, ar ddathlu eu Priodas Ruddem ddechrau'r flwyddyn ac, yn ôl y ddau, mae'r blynyddoedd wedi hedfan.

Tynfa Rhagfyr, Nadolig a mis Ionawr. Cofiwch imi ddweud yn rhifyn y Nadolig o'r Eco, oedd yn y wasg yn fuan yn y mis, y byddai'r holl ganlyniadau yn ymddangos fis Ionawr. Felly, dyma nhw!

Rhagfyr: £40 Dafydd Morris, Frondeg (10); £25 John Jones, Garreg Lwyd (112); £15 Mair Roberts, S'n y Gwynt (77); £5 Robat Roberts, 23 Rhes Glangwna (15).

Tynfa Nadolig £10 yr un i'r deg canlynol; Owie Williams, 19 Rhes Glangwna (85); Robin Evans, Bryn Eden (33); Aled Jones, 9 Rhes Glangwna (46); Mark a Linda Jones, T? Newydd (80); Lisa Mai, Caeathro Bach (57); William Hughes, Cefn Gwern (48); Hannah Hughes, Llyngele (25); Gareth Griffiths, Hafan (2); Helen Fretwell, 22 Rhes Glangwna (27); Joe a Harriet Roberts (56).

Tynfa Ionawr 2016: £40 Yvonne Jones, Y Gilfach, (58); £25 T. a N. Evans, Plas Treflan (72); £15 Sheila Liptrot, Lynlea (87); £5 Mrs J. Evans, Llwyn Alice (30).

Teulu Bob Owen, Croesor Daeth mwy o hanes i law yn ystod y mis. Cartref Nel, sef gwraig Bob Owen, oedd Tŷ Gwyn, Caeathro, a bu yn forwyn fach yn Y Wern, Llanfrothen cyn priodi â Bob yn 1923 .Ganwyd iddynt dri o blant, Annie Grace (neu Nanw fel y'i gelwir) ac sydd yn ffermio Sarn, Botwnnog; Owen Tudur, sy'n byw yng Nghroesor, a Sian oedd yn nyrsio ac sydd yn awr yn byw yn Llanfairpwll. Diolch i Dilys Roberts, Racca, Penisarwaun am y wybodaeth am ei ffrind Sian, y ddwy yn nyrsio hefo'i gilydd flynyddoedd yn ôl.

Llongyfarchiadau i Sion a Dona Griffiths, Erw Wen gynt, ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Deio Sion, a dymuniadau gorau i chi fel teulu.



Ffenestri CADNANT Windows
 iorwerthwilliams@fsmail.net
DRYSAU □ FFENESTRI
A CONSERVATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM
 13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts.
Ffôn: 870580

W

YREGLWYS BRESBYTERAIDD

Oedfa Nadolig

Dathlwyd yr Ŵyl gyda gwasanaeth brynhawn Sul, Rhagfyr 20fed. Roedd cynulliad da wedi dod ynghyd i awyrgylch Nadoligaidd yr ystafell addoli. Trefnwyd y gwasanaeth gan Gwyn Hefin Jones ac ef, ynghyd ag Ifanwy Jones, a gymerodd at y rhannau arweiniol. Yn ystod y gwasanaeth a oedd yn dilyn, cafwyd eitemau llafar gan Dwynwen Williams, Pat Jones a Carol Houston, Einir Gwyn a Lowri Prys Roberts gyda phawb yn ymuno i ganu nifer o garolau cynulleidfaol. Cafwyd datganiadau o garolau hefyd gan y triawd, Dafydd Ellis, Irfon Ellis a Robert John Williams a deuawd gan Huw Fôn a Lowri Prys Roberts. Traddodwyd y weddi gan Huw Fôn Roberts. Cafwyd myfyrdod pwrpasol ar Ŵyl y Nadolig gan ein Gweinidog, Y Parch Marcus Robinson. Anfonwyd cofion a'r dymuniadau gorau at y rhai llesg o blith ein haelodau. Roedd y casgliad yn mynd at waith Cymorth Cristnogol. Mwynhawyd orig yn dilyn yng Nghaffi Caban a mawr ein diolch i'r staff am y lluniaeth ardderchog.

Oedfa Gŵyl Ystwyll Nos Sul, Ionawr 3ydd, ymunodd nifer o'r aelodau â chynulleidfa oedd lleol yng Nghapel y Rhos, Llanrug, mewn gwasanaeth bendithiol o lithoedd a charolau wedi ei drefnu dan nawdd gweinidogion Ardal Gweinidogaeth Bro Eryri. Cymerwyd rhan o Eglwys Brynrefail gan Gwyn Hefin Jones, Huw Fôn Roberts a gwasanaethwyd wrth yr organ gan Lowri Prys Roberts.

Cyfarfod Gweddi Dechrau Blwyddyn

Nos Sul, Ionawr 10fed, cynhaliwyd oedfa o weddi, myfyrdod a moliant ar ddechrau blwyddyn. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Dafydd Ellis. Mewn cyfres o fyfyrdodau cymerwyd rhan gan Iris Rowlands, Einir Gwyn, Dafydd Ellis, Irfon Ellis a Robert John Williams. Cymerwyd rhan ymhellach mewn darlleniad o'r Ysgrythur a Gweddi gan Robert John Williams. Trefnwyd y gwasanaeth a thraddodwyd yr Anerchiad Blwyddyn Newydd gan Lowri Prys Roberts.

Oedfaon Chwefror am 5 yr hwyr

- 7: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)
Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd
- 14: Mr John Roberts, Llanfairpwll
- 21: Parch Trefor Lewis, Hen Golwyn
- 28: Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
 LLANBERIS
M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW
(01286) 870225



—Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn—

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255



CHWILOTA
chwilota.wordpress.com

Heddlu Deiniolen 1942.

Ar safle Facebook Hen Luniau Gogledd Cymru yr ymddangosodd y llun, a diolch i Howyn Williams (Deiniolen gynt) am dynnu fy sylw ato. Cysylltais efo'r gwr a roddodd y llun ar y safle, ac o fewn dim roedd Steve Johnson wedi anfon copi i mi. Fe ddaeth ar ei draws tra wrth ei waith yn clirio tai gwag. Mae enwau'r holl aelodau o dan y llun, a chyfeirir atynt fel Special Constables. Tynnwyd y llun ym mis Awst 1942. Mae'n ymddangos mai J.M.Roberts oedd perchennog y llun, oherwydd mae label printiedig ar ei gefn yn cyfeirio at gwmni G.H.Moore and Son, 7 North Road, Caernarfon. Ac ar y label ysgrifennwyd J.M.Roberts Rhif 8172, a'i gyfeiriad dros-dro oedd 7 North Road, Deiniolen. Cyd-ddigwyddiad od fod rhan o'r ddau gyfeiriad yn union yr un fath! Oes rhywun â gwybodaeth am y plismyn hyn?



Rhes gefn (chwith i'r dde): J.M.Roberts, R.G.Roberts ac E.Williams.

Ail res: T.J.Jones, R.T.Williams, PC Lynes, B.Jones.

Trydydd rhes: R.O.Jones, Inspector T.H.Ingham, Superintendent G.W.Roberts, Sarjant O.H.Jones, T.B.Jones.

Blaen: J.Griffith a T.Evans

Postman Pen y Gwryd.

Gan Eifion Roberts, Llanberis y daeth gwybodaeth am y postmon yn y llun a ymddangosodd yn rhifyn Hydref 2015. Ei enw oedd Evan Evans, tad Mair Evans, Dol Elidir, Llanberis, a fu farw yn ddiweddar. Yn ol Eifion, tynnwyd y llun yn 1924. Evan Evans hefyd oedd drwmwrwr Band Llanberis,

Beth ddigwyddodd i Humphrey Thomas Llew Hughes?



Ddiwrnod wedi i'r Eco diwethaf ei anfon i'r wasg daeth Charles Jones, Llanrug i gysylltiad ynglyn a diflaniad gwr o Lanrug yn America, a hynny bron i gan mlynedd yn ol. Anfonwyd copi o bapur newydd iddo gan wraig o'r America a gyfarfu ar stondin y Cymry ar Wasgar yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod yn gynharach yn y flwyddyn. Copi yw o bapur newydd Y Drych ym mis Awst 1926, gda llun o Humphrey Hughes ac ymholid amdano gan ei fam, Mr E.S.Hughes o Egryn Villa, Llanrug. Doedd hi ddim wedi clywed dim ganddo ers dwy flynedd, ac yr oedd yn naturiol yn bryderus. Y tro diwethaf iddi glywed ganddo roedd yn byw yn Chicago.

Felly, cyn holi beth ddigwyddodd iddo, dyma geisio darganfod rhywfaint am ei gefndir. Mae'r teulu'n ymddangos ar Gyfrifiad 1901 yn byw yn Nhan y Castell, Llanrug. Un o'r Bontnewydd oedd y tad, David Hughes, ac yn chwarelwr. Deuai ei wraig, Lizzie (Elisabeth) o Lanegryn, Meirionnydd. Humphrey (a dyna'r unig enw a gofnodir yn y Cyfrifiad) oedd yr hynaf o'r plant. Roedd yn naw oed. Roedd dau o blant eraill, sef

Gwen (5 oed) a Richard (1 oed).

Erbyn 1911 roedd y teulu'n byw yn Llwyn Onn, a'r ffurflen cyfrifiad wedi ei llenwi yn Gymraeg gan David Hughes, a ddisgrifiai ei hun fel creigiwr. Roedd Humphrey bellach yn bedair ar bymtheg oed, a'i chwaer, Gwen yn wniadwraig.

Dyna'r cwbl, ar hyn o bryd, a wyddom am y teulu yn Llanrug, ar wahan i'r ffaith eu bod yn byw yn Egryn Villa erbyn 1926 (un o Lanegryn oedd y fam).

Methais a darganfod pryd yr ymfudodd Humphrey am Ogledd America, ond mae cofnod ohono yn Chwefror 1913 yn croesi o Ganada i'r Unol Daleithiau. Mae'n rhoi ei oedran yn 22ain, ac mai o Gymru y deuai. Ei gyrchfan oedd tref Aberdeen yn nhalaith South Dakota. Yr hyn sy'n od yw ei fod yn enwi ei dad (sef ei berthynas agosaf yng Nghymru yn ol gofynion yr holiadur a lenwodd) fel John ...gnes (mae'r llawysgrif yn anodd iawn i'w darllen). Yn yr un ddogfen dywedir ei fod wedi cyrraedd i le o'r enw Marcus, Washington.

Deuthum ar draws un cofnod arall amdano ym mis Ebrill 1919, sy'n enwi Seattle, Washington fel ei gyrchfan, ac iddo ddod yno o Victoria, British Columbia. Mae erbyn hyn yn 28ain oed ac yn disgrifio'i hun fel mwynwr.

Erbyn hyn cyfeirir ato fel Humphrey Thomas Hughes. Dim ond yn y toriad papur newydd o'r Drych y ceir ei enw'n llawn fel Humphrey Thomas Llew Hughes.

Mae'n amlwg felly ei fod wedi crwydro gryn dipyn yng Nghanada a'r Unol Daleithiau, ac efallai mai dilyn y cyfleon am waith a wnai. Ond beth tybed ddigwyddodd iddo rhwng 1924 (ei lythyr olaf gartref i Lanrug) a 1926 pan apeliodd ei fam mewn newyddiadur Americanaidd am wybodaeth amdano? A ddaeth newyddion da iddi? A ddaeth newyddion o unrhyw fath? A beth am y brawd a chwaer a arhosodd yn Llanrug? Oes rhywun o'r darllenwyr a gwybodaeth? Llauer o gwestiynau, ond fawr ddim o atebion mae gen i ofn!


SEFYDLWYD DROS
20 MLYNEDD

**SYNUD
A CHADW**

CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol

01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com

Y Ffotograffydd William Williams.



Anfonwyd mwy o wybodaeth am y ffotograffydd gan Mrs Mair Owen, Rhiwlas. Roedd ei mam-yng-nhgyfraith yn byw yn nhyddyn Rhos-ddu, Llanrug, a phriododd efo Robert Owen o Riwlas yn 1935. Roedd ganddi ddwy chwaer – sy’n sefyll o

bobtu’r par priod – sef Maggie Jane Owen a Mattie Owen. Hefyd yn y llun mae’r Parch Goronwy Williams, gweinidog Capel Mawr, Llanrug ar y pryd.

Ac wrth gwrs, William Williams oedd y ffotograffydd. Gwelir hefyd iddo sefydlu ei fusnes mor gynnar a 1890.

Cwmni Bysus pwy?

Roedd yn bosib manylu ar lun y bws oedd yn cael trafferthion yn llyfogydd Cors Llwyncoed yn rhifyn Nadolig yr “Eco”, a darllen ei rif cofrestru : CC 8578. Mae manylion degau ar ddegau o gerbydau ar gadw yn yr Archifdy yng Nghaernarfon, felly dyma fynd ati i chwilio mwy am hanes y bws, a chael siom. Mae ffeiliau o wybodaeth am rifau cofrestru CC 8576, CC 8577, CC 8579 ac CC 8580 yno, ond dim son am y bws! Ond o barhau i chwilio, dod ar draws un cerdyn bychan yn cofnodi mymryn o hanes y bws.


Ar y cerdyn disgrifir y bws fel ‘GMC Coach’ gydag ugain o seddi. Fe’i cofrestrwyd gyntaf ar y cyntaf o Chwefror 1929, ond ni ddywedir gan bwy nac i ba gwmni. Diddymwyd trwydded y bws ar y dydd olaf o fis Medi 1939, gyda’r wybodaeth na chafodd ei drwyddedu yn ystod y tair blynedd diwethaf, ac na chyflwynwyd llyfr cofrestru’r cerbyd i’r awdurdodau chwaith. Y perchennog olaf oedd William Henry Davies o Crophorne, Morgannwg.

Mae’n ymddangos felly mai ber iawn fu oes y cerbyd! Efallai fod brwydro drwy lifogydd Cors Llwyncoed yn flynyddol wedi bod yn ormod o straen arno!

Tua’r amser y cofrestrwyd y bws gyntaf oedd y cyfnod y dechreuodd Cwmni Crosville brynu rhai o’r busnesau bach lleol yn yr ardal. Prynwyd Peris Motors ganddynt ym mis Hydref 1928, a chwmni Thomas John Edwards hefyd yn yr un mis. Does gen i fawr ddim gwybodaeth am y cwmni hwn, ond roedd yn rhedeg bysus (neu fws) o Gaernarfon i Frynrefail. Efallai mai rhywun o Frynrefail oedd o. Oes rhywun yn gwybod? Prynwyd bysus D.M.Prichard, Llanrug gan Crosville ym mis Mawrth 1936. Dyma dri chwmni lleol oedd yn bodoli yn ystod amser cofrestru CC8578.

Yn y llun, mae’r enw ‘Llanberis’ ar flaen y bws. Nid cwmni Thomas John Edwards mohono felly, oherwydd mai taith Caernarfon-Brynrefail yn unig a weithredai. Roedd Peris Motors eisoes wedi eu prynu gan Crosville rhyw bedwar mis cyn cofrestru CC 8578, ac fe allai fod yn perthyn i’r cwmni newydd hwn. Parhaodd bysus D.M.Prichard hyd 1936 – y flwyddyn olaf i’r bws yn y llun gael ei drwyddedu. Hyd yn hyn, felly, does dim sicrwydd pendant bws pa gwmni yw’r un yn y llifogydd, ond mae’r cliwiau yn ddiddorol. Ac o na bai’n bosib cael gwybod sut y diweddodd ei oes ym Morgannwg! Yr unig ffaith bendant yw fod y llun yn perthyn i gyfnod rhywdro rhwng 1929 a 1936.

Oes rhywun all gynnig mwy o wybodaeth?



**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394**

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

*Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal*

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

CHWILOTA Parhad



Y Twyll yn Llanberis.

Y mis diwethaf holais am wybodaeth am Dewi Padarn, yn dilyn derbyn adroddiad am ei farwolaeth yn Llanberis ym mis Mawrth 1890. ‘Un o enwogion Eryri’ yn ol yr adroddiad hwnnw, a gwr amlwg gyda phob digwyddiad cymdeithasol o fewn y fro, gan gynnwys bod yn ysgrifennydd Cymdeithas Adeiladu Nant Padarn am flynyddoedd lawer. Eifion Roberts, Llanberis ac Iwan Roberts, Llanrug gysylltodd yn dweud ei bod yn werth chwilio drwy bapurau newydd gweddill y flwyddyn honno i gael gwir hanes Dewi Padarn, a diolch i’r ddau am fy arwain at y rheswm na chaiff Dewi ei goffau.

O fewn ychydig fisoedd i’w farwolaeth, roedd un o’r papurau dyddiol yn cynnig y beddargraff canlynol i’w osod ar garreg ei fedd: “Here lies a bard without poetry, a secretary without conscience and a Christian without religion. Like other celebrated thieves, he doubtless found his way to Paradise, but unfortunately he escaped execution.”

A hyn wedi i chwarelwyr Dinorwig gasglu cyfraniadau i godi cofadail haeddiannol iddo ar ei fedd. Ond pan ddaeth y gwir am fywyd Dewi Padarn i’r amlwg, bu’n rhaid dychwelyd yr holl gyfraniadau. Pam felly?

Yn syml, o fewn ychydig fisoedd i’w farwolaeth darganfuwyd ei fod wedi lladrata dros un fil ar ddeg o bunnau o gronfa’r Gymdeithas Adeiladu dros y blynyddoedd y bu’n ysgrifennydd ariannol iddi: swm enfawr. Roedd gohebwyd pob papur dyddiol ac wythnosol yn fuan iawn yn datgelu a dehongli’r twyll, a sut y bu’n bosib iddo gadw’r twyll o olwg holl archwilwyr ariannol y Gymdeithas. Mae’n ymddangos ei fod yn cadw dwy set o lyfrau cofnodion ariannol, ac yn dangos yr un oedd yn ymddangos yn gywir iddynt ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, ond yn cadw’r gwir ar lyfr cownt arall, a hynny, mae’n debyg, rhag iddo or-wario o’r gronfa ar ei les ariannol hunanol ei hun!

“Yn lle colofn o farmor,” meddai gohebydd Y Cymro, “pentyrau o felltithion a llwon a roddir ar fan fechan ei fedd. Druan o’i goffadwriaeth.”

A druan, wrth gwrs, o’r aelodau o’i deulu oedd yn parhau yn Llanberis a’r cyffiniau. Gwyddom erbyn hyn fod ganddo ddau fab; un yn cadw siop yn y pentref, a’r llall yn gorffen ei addysg

yn Lerpwl i fod yn gyfreithiwr. Ymfudodd y ddau i’r America, yn ol un o’r papurau wythnosol, “i chwilio am gornel fechan lle nas gwyr neb am Ddewi Padarn.”

Job Owen oedd olynydd Dewi Padarn fel ysgrifennydd Cymdeithas Adeiladu nant Padarn, a buan y sylweddolodd fod y cyfrifon yn llawn anhrefn a dryswch. Gwnaeth Ymddiriedolwyr y Gymdeithas gais ar i Mr D.P.Williams, Ustus Heddwch a’r Henadur John Davies (Gwyneddon) o Gaernarfon ddod i gyfarfod o’r gymdeithas a rhoi cyngor iddynt ynglyn a’r hyn y dylid ei wneud. Penderfynwyd trosglwyddo llyfrau cofnodion ariannol y Gymdeithas i gyfrifydd amlwg, Mr R.W.Thomas o Lerpwl i’w harchwilio. Dechreuodd yntau ar y gwaith ym mis Mai, cwta ddeufis wedi marwolaeth Dewi Padarn, ac yr oedd wedi gorffen ei holl archwiliadau erbyn Medi.

Galwyd cyfarfod o holl aelodau’r Gymdeithas yn y Concert Hall, Llanberis ddiwedd mis Medi, a hynny am bedwar o’r gloch brynhawn Sadwrn. Roedd R.W.Thomas yno i egluro cymhlethdod y twyll. Dylai’r Gymdeithas fod yn berchen tua £25,000, ond yr oedd diffyg o bron i £11,500. Sicrhaodd y gynulleidfa nad oedd a wnelo yr un o swyddogion eraill y Gymdeithas ddim a’r twyll: roeddent hwythau hefyd wedi eu twyllo gan yr ysgrifennydd ariannol.

Hawdd dychmygu y cynnwrf a’r cyffro yn yr ardal yn ystod y flwyddyn, ac aeth rhai mor bell a lledaenu stori fod Dewi Padarn wedi twyllo angau hyd yn oed. Yn Baner ac Amserau Cymru ym mis Hydref ceir y paragraff canlynol: “Cafodd adroddiad ffol ei adrodd mewn perthynas a marwolaeth Mr David Jones.... Swm a sylwedd yr adroddiad ydoedd, na bu efe farw, ac i’r arch gael ei doddi yn y bedd gyda nifer o briddfeini ynddi yn lle corff.” Ond mae’n diweddu gyda’r datganiad: “Wrth gwrs, nid yw hyn ond ffrwyth dychmyg yn codi, o bosibl, oddi ar y cyffro diweddaf mewn perthynas i safle anfodhaol y Gymdeithas.”

A dyna, hyd yn hyn, beth a wyddom am Dewi Padarn a helyntion y Gymdeithas Adeiladu.

I ddod y mis nesaf... Mwy am Ifaciwis Brynrefail a’r cylch, a hanes Eisteddfod Llys Dinorwig.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro’r “Eco”, neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

UTGORN CYMRU EINGWIR HANES

Eleni eto, bydd Canolfan Hanes Uwchgwyrfai yng Nghlynnog Fawr yn parhau â’r gyfres arloesol a phoblogaidd, ‘Ein Gwir Hanes’. Eisoes cafwyd chwe chyfarfod llwyddiannus yn edrych yn fanwl ar gyfnodau a digwyddiadau allweddol yn hanes ein gwlad, pethau’n amlach na pheidio na chlywsom amdanynt yn ein gwersi ysgol. Hyderwn y bydd gan ein cyd-Gymry ddiddordeb mawr yn y cyfarfodydd eleni eto. Dyma’r dyddiadau a’r testunau ar gyfer eich dyddiaduron yn 2016:

Chwefror 13eg : Yr Hen Bowys a’r Canu Englynol

Mai 14eg : Cilmeri - Ai Celwydd?

Hydref 15fed : Tynged y Gymraeg rhwng dau gyfrifiad (2011-2021)

Bydd pob cyfarfod yn dechrau yn brydlon am 10.30am ac yn dod i ben tua 2.30pm.

Fel arfer, rydym yn sicrhau siaradwyr brwd o’r safon uchaf sydd yn dra hyddysg yn eu meysydd. Ym mis Chwefror byddwn yn croesawu’r Athro Peredur Lynch a’r Prifardd Myrddin ap Dafydd i sôn a thrafod hanes cythryblus teyrnas yr hen Bowys a’r canu englynol, hynny ymhell dros fil o flynyddoedd yn ôl.

Mae’r cyfan, heb os, yn dal yn gwbl berthnasol i’n cenhedlaeth ni. Rhan gyson o genhadaeth arloesol Canolfan Hanes Uwchgwyrfai yw’r cyfarfodydd hyn o’n ‘Gwir Hanes’, ac ni chodir tâl mynediad o gwbl. Darperir paned am ddim hefyd, a bydd croeso cynnes yn eich disgwyl. Dowch â thamaid o fwyd i’ch canlyn.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â ni:

Ffôn : 01286 660 546/853/655

E-bost : canolfanuwcgwyrfaifai@gmail.com

‘Anghofio yw bradychu’.

Hyn a’r llall.



Syr Edward Watkin



Andronicus

Beth Ydi Pen, Meddech Chwi?

Corun, rhan uchaf, copa mynydd. Daw'r Wyddfa i'm meddwl. Fu'r mynydd uchaf yng Nghymru rioed yn rhan ohonof. Dydi hynny heb fod yn eich synnu oherwydd dydw i fawr iawn o daldra, a phopeth o'm cwmpas llawer mwy na fi! Yn Nhalsarnau, ar ddyddiau mwy clir na'i gilydd, a chrwt ysgol Gynradd oeddwn i ar y pryd, mi fues i'n ddigon ffodus, fel sawl un arall, yn enwedig yn yr hafau, i lygadrythu mewn rhyfeddod ar fwg y trên bach wrth iddi deithio i ben yr Wyddfa. Deil yr hud a'r rhyfeddod hyd heddiw.

'Chydig a feddyliais i bryd hynny y buaswn yn byw'n y fro Gymraeg ym mhlwyf Llanddeiniolen. Pan gerddaf o'r Glasgoed tuag at Bont Rhythallt, ar ddyddiau brafiach na'i gilydd, deil yr Wyddfa'n rhan o'm byd a'm gwneuthuriad.

Fy mwriad yn y misoedd sydd ar ddyfod ydyw cymryd ati, ceisio ydi'r gair gora', i ddatgelu rhywfaint yn ychwanegol am yr Wyddfa, gan ddysgu oddi wrthych chwi'r darllenwyr a'r mynydd ei hunan am bethau nas gwn hyd yma amdanynt.

Yn Eco'r Wyddfa mis Ebrill (1979) cynhwyswyd dwy dudalen tu hwnt o ddiddorol, hefo ffotograffau yn ymwneud â'r Wyddfa. Bu hyn yn sbardun imi! Un ohonynt ydoedd hanes torri pen 'rhen fynydd! Roedd hi'n dân enbyd yn y newyddiaduron lleol, ble honnid bod 'rhen Garnedd Llywelyn yn llawer uwch na'r Wyddfa.

Gŵr a aned ger y Bala ym Meirion ydoedd John William Jones (1842-1895). Llenor ydoedd a fu, oherwydd cryd cymalau go ddrwg, yn orweddog y rhan fwyaf o'i oes. Ei enw barddol ydoedd Andronicus, ac yn ystod un flwyddyn, yn Y Genedl Gymreig, cawn ef yn dweud wrth Syr Edward Watkin (1819-1901) am gyflogi dynion er mwyn cludo rwbwl o Chwarel Llanber i gopa'r Wyddfa, ac yno adeiladu tomen llawer uwch na chopa Carnedd Llywelyn!

Barwn, A.S., Sais o Salford, sir Gaerhirfryn, Lloegr efo'i dad, Absalom, yn fasnachwr cotwm pur gyfoethog ydoedd Syr Edward Watkin. Ymddiddorai mewn datblygu rheilffyrdd. Tra yng Nghymru ymgartrefai yn The Chalet (dyna chwi enw!) Hafod y Llyn, Beddgelert, a daliai feddiant ar ddernyn o'r Wyddfa.

Un mynydd yn fwy ran uchder nag un arall? Hen hanes. Dyn yn mynnu cael mwy fyth o sylw i'r hyn ydoedd uchaf yn ei fywyd! Ie, mynydd. Bu i fardd Rhyd-ddu ryfeddu at fawredd moelni mynyddoedd Eryri. Rhan o'n doeau ac yfory ydynt! Mymryn o dynnu coesa' yn ogleisiol ydyw'r cyfan ebe rhai! Diddorol nodi nad digwyddiad unigryw i'r Wyddfa a Charnedd Llywelyn mo hyn, oherwydd yn ei Gasgliad o Lên Gwerin Meirion, a gynhwysir yn Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Ffestiniog (1898) (a.a. Y llynedd gan yr Athro Gwyn Thomas) y mae William Davies, Talybont, Ceredigion, yn dweud mai Aran Fawddwy ydyw brenhines mynyddoedd Meirionydd ac nid Cader Idris. Ceid pobol dda Mawddwy yn argyhoeddedig fod Aran Mawddwy yn tipyn uwch na'r Gader, cymaint felly fel y bu iddynt godi carnedd anferthol ar y copa.

Dafydd Guto Ifan



Kitty Roberts

‘Bu’n dlos tra bu’i hanadl hi’

Ganol Ionawr bu farw Kitty Roberts, trigiannydd hynaf tref Caernarfon, yn 106 oed. Un o

Lanberis oedd hi’n wreiddiol. Bu farw ei thad, William Roberts, tra’n gweithio yn y Chwarel – nid drwy ddamwain ond o afiechyd – a hynny am na ellid ei gael i lawr o’r bonc i gyrraedd ysbyty neu feddyg mewn digon o bryd. Y teulu’n mudo, wedyn, i’r Stamps (os mai dyna’r enw’n gywir) yn Nant Peris i fyw gyda’i thaid. Fel trigolion Stoke Podges, yng ngalargan enwog Thomas Grey, Elegy Written in a Country Churychard, fel un na chafodd gyfle addysg llawn y byddwn i’n meddwl amdani. Hunan ddiwylliedig oedd hi, yn yfed llyfrau wrth y cyfrolau, yn fedrus mewn amrywiol gyfeiriadau ac iddi anwyldeb mawr.

Oherwydd cynni’r cyfnod, yn ifanc aeth i weini i Fanceinion ac yna i Aberystwyth. Yno, syrthiodd mewn cariad â llanc o Lanberis, oedd yn fyfyrwr am y weinidogaeth, David John Roberts – y ddau o bosibl yn gynefin â’i gilydd cyn hynny – a phriodi yn Ionawr 1939. Gwraig gweinidog o dan yr hen drefn, buy one get one free, anhygoel weithgar fu hi wedyn yn Rhoshirwaun ym mhendraw Llŷn, Blaenau Ffestiniog a’r Waunfawr yn Arfon. Ymddeolodd y ddau i Gaernarfon yn 1976. Wynebodd ddwy golled enbyd yn ystod blynyddoedd yr ymddeoliad: colli’i gŵr yn 1987 a Buddug, ei merch, yn 1996. Mae’i hunig fab, Huw, a Lona ei briod, yn byw yng Nghaerdydd. Serch yr ergydion ni siglwyd ei Ffydd Gristnogol ac ni ddangosodd owns o chwerwedd.

Bu fyw yn lliwgar, o ran ei gwisgo; yn byw ar drot o ran ei myrdd diddordebau ac yn byw yn ifanc o ran ei gwedd a’i gweithgareddau. Bùm yn chwilio am air a fyddai’n ei disgrifio hi i eraill, a gorfod mynd am y Ffrangeg: petite. Yn Gymraeg gall olygu ‘bechan, ‘tlos’ neu ‘gwantan’. Byddai’r ddau air cyntaf yn ei ffitio fel maneg am law ond nid ‘gwantan’. Roedd iddi wytnwch anarferol o ran ei hargyhoeddiadau, ei safiadau a’i datganiadau, weithiau.

Ni welodd eglwys Seilo, Caernarfon, ei ffyddlonach; bu’n gefnogol i nifer o gymdeithasau a mudiadau yn y bröydd lle bu’r ddau’n byw – gyda Merched y Wawr ar frig y rhestr. Yn yr hen dre, lle treuliodd hi bron i 40, mlynedd daeth yn draddodiad yn ei hoes ei hun, nid yn unig oherwydd hyd ei heinioes neu eglurder ei chof i’r diwedd un ond am iddi gyfoethogi’r gymdeithas. Felly, diolch i fro’r Eco am a gafwyd.

Harri Parri

Merchedy Wawr Dymunodd Mair Flwyddyn Newydd Dda i bawb gan roi croeso arbennig i'n gwraig wadd, Ellen Lloyd Jones. Mae Ellen yn byw yn Y Gaerwen ond yn wreiddiol o Lanberis. Yn dilyn ei hymddeoliad cynnar fel athrawes dechnoleg yn Ysgol Dyffryn Ogwen sefydlodd Ategolion 'Nel'. Cawsom ein swyno gan ategolion o fagiau mawr a bach o wahanol ddefnyddiau, at bob math o achlysuron. Yna cawsom wledd i'r llygaidd gan lu o gyfareddwyr (facinators), pob dim yn cael eu cynllunio yn unigryw i gwsmeriaid. Arddangosodd Ellen sut y mae'n mynd ati i'w creu. Mae'n defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau naturiol o frethyn, sidan, lês, net a defnydd o groen banana o'r Philipinau.

Gwnaethpwyd y baned gan Lynwen, Eleri, Valeri, Efa a Gwyneth ac enillwyd y raffl gan Jen.

Anfonwyd cofion at Elisabeth Blaenparc a dymunwyd gwellhad buan i Gwyneth Fachell.

Yn ystod y mis bydd criw yn mynd i fowlio deg; cynhelir sesiwn grefftau a bydd Glenys a Eirlys yn gwneud eu distawrwydd noddedig. Anogodd Mair pawb i wirfoddoli, mae Bryn Seiont Newydd angen darllenwyr Eco'r Wyddfa ar gyfer y deillion.

Dosbarthwyd bwydlen ar gyfer swper Gŵyl Ddewi yn Nhafarn y Bont lle cawn ein diddanu

gan Mair Tomos Ifans. Mae'r noson yma yn cael ei noddi gan 'noson fach allan'.

Yn ein cyfarfod nesaf byddwn yn 'Blasu Gwin' o dan arweiniad y Parchedig Marcus Robinson yng nghwmni cyd-aelodau o wahanol ganghennau Merched y Wawr Arfon.

Llongyfarchiadau mawr i Gwawr, Bro Rhos, am ei llwyddiant yn Eisteddfod Gadeiriol Aelhearn. Cafodd Gwawr y gwobrau cyntaf am adrodd, alaw werin, unawd cerdd dant a'r unawd canu, hefyd ail yn yr unawd piano. Fel canlyniad i'w llwyddiant dyfarnwyd 'Tlws y Plant' i Gwawr. Da iawn Gwawr a dal ati, gan y teulu i gyd.

Dymuna Mair Jones, Erw Gain, Stad Eryri, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, blodau a chardiau a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.

Cronfa Mynwent Eglwys Llanddeiniolen

Mae cost cynnal a chadw Mynwent y Plwyf yn codi'n flynyddol ac rydym yn gwbl ddibynol ar gyfraniadau fel yr isod. Fe fyddwn yn falch i dderbyn unrhyw gyfraniad trwy law y Trysorydd: Mr Brian Sharpe, Ael y Bryn, Bethel, Caernarfon, LL55 3AA. Cydnabyddir pob cyfraniad.

£100 yr un: Mrs C.A. Lowe, Henryd, Conwy; Mrs M.E. Evans, Dol Werdd, Porth y Rhyd, Caerfyrddin; Gwynedd

Hughes, Hesketh Road, Southport; Dylan G. Edwards a Gareth Jones, 3 Bro Deiniol, Deiniolen.

£75 – Di enw.

£60 – Mrs E. Hughes, Adwy'r Mynydd, Deiniolen.

£50 yr un: Eleri Griffith, Pencraig, Ffordd Glanffynnon, Llanrug; Teulu Gelli, Llanddeiniolen; Miss P.A. Williams, Cilgwyn, Bethel; R.J. Thomas, Buarthau, Llanrug; Elwyn a Gwyneth Jones, Llys Gwynt, Llanddeiniolen.

£40 yr un: Meira Griffith, Crud yr Awen, Penisarwaen; Ivy Wright, 2 Tan Buarth, Bethel.

£30 yr un: Dilys C. Jones, Ael y Bryn, Newton Street, Llanberis; Eleanor Jones, 22 Cremlyn, Bethel; Valerie Owen, Margaret Jones, a Jennifer Roberts, Rhoslan, Bethel.

£25 yr un: R.E. Williams Cranley, Surrey; Keith Morgan, Penisarwaen; Elspeth Edwards, Caerdydd; Eirlys a Brian Sharpe, Ael y Bryn, Bethel;

£20 yr un: Margaret Eckley, Gerddi, Bethel; Phyllis Jones, 9 Maes Briallen, Llanrhos, Llandudno; Ann Hughes, Y Bwthyn, Ffordd yr Orsedd, Llanrug; Albert Hughes, 34 Bro Rhos, Bethel; Gwyneth Hughes, 36 Bro Rhos, Bethel; Edith Jones, Trewaen, Trefor, Caergybi; Mr a Mrs E.R. Jones, 7 Dob, Tregarth; Mr a Mrs J.M. Griffiths, Llwyn Eithin, Bethel; John ac Elisabeth Evans, Pen Parc, Bethel; Alice Jones, 15

Bro Rhos, Bethel; Ann Ellis Williams a Ieuan Ellis Jones, Ddolwen Fach, Bethel;

£10 yr un: Eirian Jones, 11 New Street, Deiniolen; Di-enw; Mr a Mrs Emyr W. Jones, Wenallt, Bethel; Mr a Mrs I.W. Williams, Llain yr Ardd, Bethel; Dilys Parry, Bryn Tirion, Rhiwlas; Marjorie Roberts, T? Newydd, Bethel; Daniel a Megan Humphries, Is Helen, Bethel; Vera Williams Llanddeiniolen.

Pentref Taclus Fel rhan o'r cynllun Trefi Taclus a noddir gan Llywodraeth Cymru, mae criw bychan o wirfoddolwyr wedi dechrau mynd o gwmpas y pentref yn casglu sbwriel, a'r bwriad yw gwneud hyn pob pythefnos. Os oes gennych awydd gwirfoddoli yna dewch draw i'r Neuadd am 10 o'r gloch ar fore Mercher 3ydd a 17eg o Chwefror - y dyddiadau nesaf (os bydd y tywydd yn caniatáu). Darperir bagiau, siacedi ac ati i bawb.

Cymdeithas Lenyddol Cynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr yng nghwmni J. Dilwyn Williams, Penygroes, Swyddog Addysg yn Archifdy Gwynedd. Testun ei sgwrs oedd GLYNLLIFON a gyda chymorth lluniau cawsom hanes y Plasty a'r Teulu o'r 9fed ganrif hyd heddiw. Diolchwyd iddo am rannu ei wybodaeth drylwyr o'r pwnc gan Dr J. Elwyn Hughes.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Chwefror 16, yn Festri Cysegr gyda Emrys Llywelyn Jones yn annerch.



**GERAINT OWEN
CARPEDI**

CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

**"RYDYM ANGEN MWY O
FYTHYNNOD HUNANARLWYO"**



DIONI

http://dioni.co.uk
tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk

Parhad BETHEL



NOSON OLAF Y BEDOL?

Ar adegau'r diogi, - Y Bedol
i'm bwydo amdani.
Ffynnon wag heb chef i ni
be' rown am biriani.

Gwag heno, neb yn gweini – a B.J.
heb job, rhaid cau'r llenni.
I'r crand, dim mwy o frandi
bitter top ar stop i ti!

I'r pedwar slic, Vic a fi – sesiynau
nos Wener ânt rhagddi.
Ias y nos oedd Ace i ni
a'r hwyl, nap yn rheoli.

Neu tybed, ddaw tro pedol – ail agor,
amlygu'r gorffennol?
Hybu'r naw, hi'n bro yn ôl
yn ased gymdeithasol.

Sychedig Wr



DRWG!

Bwli oedd Rhita Gawr, ond beth petai'n cael help gyda'i broblemau cambihafio? Beth petai o'n cael ei yrru i'r GRIS HOGYN DRWG gan Betsi Brwsh, merch fach y dyn glanhau simnai, ynteu a fydd y cwblwl yn llanast llwyr...?

Mae'r sioe bypedau hon wedi ei seilio ar hen chwedl o Wynedd, a'i hail-ddychmygu o'r gwreiddiol gan ddefnyddio actorion, pypedau, cysgodion, miwsig, eira, syrcas ganol-nos a llawer, llawer mwy!

Mae Angie'n awdures blant brofiadol (Anturiaethau Jini Mê), â diddordeb ym mhŵer pypedau fel cyfrwng llwyfan, "Rwyf wrth fy modd yn defnyddio chwedl sy'n rhan o'n hetifeddiaeth Gymreig, a'i throï'n berthnasol i blant heddiw drwy gyflwyno stori llawn lliw, hwyl a chân.

Mae'n hollbwysig i mi hefyd fod y prosiect yn annog plant i greu eu pypedau eu hunain a pharhau â'r broses greadigol trwy lunio eu straeon eu hunain adref."

Ei mab, Cai Dyfan, sydd wedi cynllunio'r set, gyda'i merch, Efa Dyfan, wedi ei phaentio, ei haddurno, a modelu'r pypedau.

Dymuna Angie ddiolch yn fawr i dîm rheoli Bara Caws, ac yn enwedig i Emyr Morris-Jones am ei holl gymorth.

Bydd y daith yn cychwyn yn Pontio, Bangor, ar Sadwrn, 30 Ionawr, ac yna yn Galeri, Caernarfon, dydd Iau a dydd Gwener, 4 a 5 Chwefror



14

TWMJOHN

Rhan o Deyrnged Arwel Jones, Llywydd Clwb Pêl-droed Llanberis, i'r diweddard T.J. Roberts, ar ddiwrnod ei angladd

Fe ddisgrifiwyd trigolion Dyffryn Peris yn ystod hanner cyntaf y ganrif ddwytha gan y diweddard Barchedig R. Bryn Williams (Patagonia gynt) tra roedd o'n gweinidogaethu yng Nghapel Coch a Hebron fel "gwerin dlawd yn byw'n gyfoethog". Ac fe roedd o'n llygad ei le. Yn y gymdeithas yma ar yr ugeinfed dydd o Hydref yn y flwyddyn 1926 y ganwyd Thomas John yn un o bedwar o blant i John ac Elizabeth Roberts, Aelwyd Uchaf, Dinorwig. Symudodd y teulu am gyfnod i bentref Brynrefail cyn ymgartrefu yn Stryd Ceunant, Llanberis, pan oedd Thomas John ond naw mlwydd oed. Felly yn y gymdeithas yma y meithrinwyd Twm ac o fewn y gymdeithas yma y mowldiwyd ei gymeriad unigryw. Cymdeithas glos, parod ei chymwynas oedd hi, rhinweddau a amlygwyd yng nghymeriad Twm ar hyd ei oes. Ar ôl derbyn addysg yn ysgol Llanberis, coleg bywyd yn Chwarel Dinorwig a threulio cyfnod yn y fyddin, yn ôl y daeth o i'w wir gynefin gan briodi Eileen a magu pedwar o blant.

Rhyw gwta saith oed oeddwn i pan welais i Twm gynta rioed a hynny pan ddois i'n ddigon hyderus i grwydro draw ar ben fy hun o'm cynefin yn Stryd Newton cyn belled â Padarn Road – i'r anghyfarwydd – cae ffwtbol Llanberis neu'r Darans. Sefyll tu ôl i'r gôl fyddwn i o hynny 'mlaen fel y cawn fod o help i'r gŵr talgryf, cyhyrog, trwsiadus a safai rhwng y pyst yn ei jyrsi werdd. Fy ngorchwyl oedd rhedeg i nôl y bêl pan âi honno heibio'r pyst a'i dychwelyd mor sydyn a medrwn i'r gôlcipar. Toedd Frank Swift, Manchester City; Jack Kelsey, Arsenal, na Bert Trautman, Manchester City, yn golygu dim i'r crwydryn bach o Stryd Newton bryd hynny. Twm John, gôlcipar Llanber, oedd yr arwr. Ac arwr y bu i mi ar hyd fy oes.

Daeth cae Ffordd Padarn yn gyfarwydd i'r ddau ohonom fel yr elai'r blynyddoedd yn eu blaenau. Ar ôl gorffen chwarae fe ymgymerodd Twm â dyletswyddau rhedeg y clwb. Does gen ddim cof i neb roi cymaint i'r gymdeithas bêl-droed yn Llanber na Twm. Dyma ddyn oedd yn fodlon ysgwyddo cyfrifoldebau gweinyddol yn ogystal â rhai ymarferol. Dyma gyn Gadeirydd y Clwb a dyma'r dyn a godai'n blygeiniol ar foreau Sadwrn ymhob tywydd i farcio'r cae (a gwaer sawl oedd ddigon dewr neu ffôl i ddweud yn ei wyneb fod yna ran o'r lein yn gam)! A dyma'r dyn roddodd o'i wirfodd i sicrhau fod ieuencid y fro yn cael y cyfle i fwynhau rhinweddau'r gem. Mae'n ddigon rhwydd heddiw i feirniadu'r gem ar raddfa ehangach, ond all neb feirniadu na dibrisio'r gem fel rhan annatod o'r gymdeithas leol – ac fe wyddai Twm hynny'n iawn. Roedd rhoi cyfle i fechgyn ifanc i ymgymryd â'r gem yn bwysig i Twm a gwn, o siarad â niferoedd ohonynt, fod timau Twm John wedi bod yn gyfrwng i lenwi a chyfoethogi eu bywydau a rhoi yr hwb a'r hyder angenrheidiol yna i'w galluogi i symud ymlaen a serennu.

"Twm John?" meddai un ohonynt nhw, sef gŵr ifanc gafodd y ffrainc o chwarae ar y lefel uchaf, "Legend achan". Dwi mor falch fod Cymdeithas Pêl-droed Cymru wedi cydnabod ei wasanaeth drwy ei wneud yn aelod oes.

Ga inna fel Llywydd Clwb Pêl-droed Llanberis, ac ar ran Eurwyn Thomas, Gadeirydd presennol y clwb, ynghyd â'i swyddogion, aelodau o'r pwyllgor, gwirfoddolwyr, cefnogwyr ac, wrth gwrs, cyn chwaraewyr a chwaraewyr presennol Y Darans ddatgan ein cydymdeimladau dwysaf â chi fel teulu.

Roedd pobol yn bwysig i Twm. Cig a gwaed oedd Llanber iddo fo – nid harddwch y lle ac nid hagrwrch y lle chwaith. Dyn pobol oedd o. A dyna'r hyn a'i wnaeth mor boblogaidd er na ddeisyfai fod yn hynny. Ond dyna'r gwir. Bu'n boblogaidd fel prentis yn y Gilfach Ddu, ymysg ei gyd weithwyr yn Peblig, adwaenai gyfeillion mewn sawl cae pêl-droed ar hyd a lled y gogledd, a phwy yn well i gyfarch a thywys dieithriaid o

amgylch Amgueddfa'r Chwarel na gŵr a adwaenai'r lle fel cefn ei law ac a oedd mor hapus a chyfforddus ymhlith pobol. Natur Twm oedd helpu pobol. Mae yna sawl un o drigolion y fro yma wedi gwerthfawrogi ei garedigrwydd a'i gymwynasau. Yr hyn a allodd hwn ei wneud efe a'i gwnaeth yng ngwir ystyr y geiriau.

Er tristed y dydd, fyddai teyrnged i Twm ddim yn gyflawn heb i mi gyfeirio at ei hiwmor iach. Mae rhai o'i straeon eisoes yn chwedlonol. Nid comediwr neu "jocar" oedd Twm, ond un o'r bodau prin hynny allai ystumio gair neu frawddeg a hynny yn aml ar amrantiad. Roedd dawn y cyfarwydd neu'r storiwr yn Twm.

Pan oedd Twm yn gallu trafaelio, uchafbwynt yr wythnos i Bert, Derek, Dic, Twm a minnau fyddai trafaelio yn y car i ddilyn y tîm. Pella'n y byd fyddai'r gêm, gora'n y byd fyddai hynny, er mwyn i ni gael amser sylweddol i wrando ar Twm yn mynd 'trwy'i betha'! Ar gyrion y ffin tra'n chwilio am gae ger Cei Connah mi es i ar goll. Yr arwydd â'n wynebai oedd "Welome To England"! Mi basio'n ni'r arwydd tua chwech o weithiau! Ymateb Twm oedd, "Ew Bert, dreifar sâl ydi hwn. Ffonia Eileen a deud wrthi nad oes gen i syniad pa bryd fyddai adra, a phan ddo i, mi fydda i wedi colli 'Nghymraeg'!"

Yr arch ddisgrifiwr oedda ni'n galw Twm. Roedd ei ymatebion i wahanol sefyllfaoedd yn gynnil, a'i ddisgrifiadau yn ddeifiol o wreiddiol. Dawn wedi ei feithrin yn gynnar tra'n gweithio yn y chwarel. Yn ystod gemau, y dyfarnwyr fyddai'n ei chael hi – yn cael eu lambastio yng ngwir ystyr y gair. Ar ôl y gêm mi fyddai'n gyfeillgar a chwrtais hefo'r cyfryw rai.

"Fel Cadeirydd y clwb dos i ofyn i'r reffari na pam na roddodd o benalti i Lanberis," medda ni wrtho fo mewn gêm gartref yn erbyn Bethesda. Fe aeth draw, ac ymhen y rhawg fe ymddangosodd yn nrws ystafell newid y dyfarnwr a chan adael y drws yn lled agored, medda Twm

"Ddudodd o fawr ddim hogia – ond be arall da chi'n ddisgwyl gael gan awdurdod ar anwybodaeth!!!" Cynilder deifiol. Petai Twm yn fardd – englynwr penigamp fydda fo.

Fe werthfawrogom ni ymdrech Reg a Ronnie (y meibion) i ddod â fo draw i'r cae a fynta yn ei wendid. A hyd yn oed yn y gwendid hwnnw ni phallodd ei hiwmor. I wir gyfoethogi ardal dlawd mae angen pobol fel Twm, y bobol sbesial gweithgar 'ma, y bobol anghonfensiynol 'ma hefo rhyw dwts bach o athrylith yn perthyn iddyn nhw. Tydi gofod ddim yn caniatáu i mi adrodd mwy o straeon – ond dwi'n gwbl sicr y basa ni'n gallu cynnal noson gyfan dan amgylchiadau gwahanol i adrodd y straeon cyflawn!

Ryda ni yma y prynhawn yma yn drwm ein calonau i dalu'r gymwynas ola. Ond ryda ni yma hefyd i ddathlu bywyd un oedd yn golygu cymaint i lawer ohonon ni. Dydw'i ddim am ofyn maddeuant am gadw'r deyrnged mor ysgafn. Fyddai Twm ddim wedi dymuno i mi ei gofio mewn unrhyw ffordd arall.

Eileen a'r teulu oll, dwi yn teimlo fymryn yn euog yn sôn cymaint am ein colled ni fel ffrindiau, ac mae'r ffrindia yma yn eu lluoedd yn llenwi'r eglwys yma. Wedi colli un y cawsom y ffrainc fawr o'i adnabod ryda ni – wedi colli un y cawsom chi y ffrainc fawr o fyw hefo fo ryda chi. Roedd ei deulu yn bopeth i Twm a gwn fod Twm yn bopeth i'w deulu.

Oes, mae ganddo chi a ninnau oll achos i dristau heddiw, ond y mae, ac fe fydd ganddom ni gymaint o atgofion i'w trysori. Daeth diwedd cyfnod – ond nid diwedd cof, a bydded i'ch atgofion fod yn falm ar y briw a deimlwch heddiw.



Gwobrau Dewis Doeth

Yn ddiweddar daeth Angharad Lloyd-Williams, Pennaeth Sgiliaith, atom i wasanaeth disgyblion hyn yr ysgol i gyflwyno gwobrau'r gystadleuaeth Dewis Doeth y cymerodd blwyddyn 10 ran ynddi yn nhymer yr haf. Rydym fel ysgol yn gweithio ar y prosiect Dewis Doeth ers blwyddyn bellach ar y cyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn addysgu disgyblion blwyddyn 10 ac 11 am y cyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yng ngholegau a phrifysgolion Cymru. Y gystadleuaeth oedd llunio map gyrfa o ryw fath yn nodi pa ran fyddai gan yr iaith Gymraeg yng ngyrfa'r person ifanc –

o'r ysgol i goleg neu brifysgol ac ymlaen i waith. Fe wnaeth pob un o ddisgyblion blwyddyn 10 llynedd gymryd rhan yn y gystadleuaeth. Dyma'r rhai a ddaeth i'r brig gan ennill tystysgrifau clod a gyflwynwyd iddynt yn y gwasanaeth gan Angharad Loyd-Williams: Catrin Walker, Elen Ifans, Iwan Rhys Jones, Rhian Williams a Prys Wyn Hughes. Enillydd y gystadleuaeth am ei gwaith gwreiddiol a chreadigol iawn yn mapio'i gyrfa a'r Gymraeg oedd Megan Griffiths. Derbyniodd ganmoliaeth fawr am ei gwaith a'r wobwr o i-pad mini. Da iawn ti Megan!

T4U

Llongyfarchiadau mawr unwaith eto i Ysgol Brynrefail wedi llwyddo i gasglu 235 o focsys ar gyfer plant Rwmania ar ran T4U (Ymgyrch Plentyn y Nadolig gynt/Christmas child). Da iawn bawb.



PARTI PENDALAR 2015



Ar ddiwedd tymor y Nadolig fe ddaeth pob aelod o Ysgol Pendalar i Ysgol Brynrefail ar gyfer y parti blynyddol. Yr ydym yn ddiolchgar i unigolion, sefydliadau a chwmnïau am eu caredigrwydd ac am eu rhoddion wnaeth gyfraniad i drefniadau'r parti. Pawb wedi mwynhau yn fawr.



Yr hen Austin 7



Ar ôl gweld atgofion Norman Closs am Wili Land, cofiais bod dau ddisgybl, Elfyn Thomas a Meirion Wyn Jones (a ddaethant yn ddiweddarach yn Bennaeth a Dirprwy Ysgol Brynrefail) wedi sgwennu cerdd am orchesion moduro ein hathro arlunio a gwaith coed tua 1955. Hen Austin Seven oedd y car ond yn anffodus dim ond tri cwpled ydw i yn eu cofio.

Wele'n cychwyn o'r garej gefn,
Wili Land yn ei Austin Seven.

Mae'n codi sbid a mynd yn grêt
A phasio Miss Parry yn ei Morris 'eight'

Ond, nawr yn wir, mae'n mynd ar 'forty'
Heibio i James yn ei BNY90 (Byni Ninety).

Yn y gweddill, 'roedd yn cyrraedd cyflymder eithriadol!!
Pwy oedd yr athrawon yma? Miss Parry (Biol) a ddaeth yn ddiweddarach yn Mrs Mary Vaughan Jones. Ieuan Lewis James, athro ffiseg, ddaeth yn Bennaeth Ysgol Brynrefail. BNY 90 oedd rhif cofrestru ei gar.
Os cofiaf yn iawn, car tebyg i hwn oedd yr Austin Seven.
Efallai bod rhywun yn cofio mwy o'r gerdd!
Gareth Pritchard, Llandudno



Cofio Twm John

Ar ddydd olaf o'r hen flwyddyn, caed bwlch a cholled unwaith eto i ni yn Llanberis, a hynny ym marwolaeth Thomas John Roberts, neu Twm John, fel yr oedd pawb yn ei adnabod. Yn wir, yr oedd Twm John yn rhan amlwg ym mywyd cymdeithasol y pentref a gwag iawn fydd y Stryd Fawr heb ei gwmni.

Oedd, yr oedd Twm John yn berson unigryw ac yn gymeriad arbennig a balch wyf o fod wedi cael y profiad o'i wir adnabod ac edmygu y rhinweddau a feddai.

Cyfeiriaf ato fel Cymwynaswr diflino. Bu am flynyddoedd yn galw ar yr hen a'r methodig i sicrhau nad oeddynt yn hollol unig. Ac hefyd nad oeddynt mewn angen. Cerddodd filltiroedd i'r siopau ar neges i hwn a'r llall, i'r post i godi pensiynau ac i'r feddygfa i gael moddion i'r gwael. Yr oedd yr hyn a wnâi dros yr hen a'r methodig yn amhrisiadwy.

Ond mawr oedd ei lafur tros fechgyn ieuanc y fro. Bu yn aelod o dim pêl-droed Llanberis ac yr oedd Llanber yn agos iawn at ei galon. Sylweddolodd fod dyfodol y Tîm Mawr yn dibynnu ar hyfforddi ieuencid. Sefydlodd dim o fechgyn ifanc gan eu dysgu yn nodweddion gorau y gêm. Casglodd gyllid i gynnal y gwaith a llwyddodd i gadw'r Tîm Mawr mewn chwaraewyr gwerth chweil. Anrhydeddwyd ef am ei lafur gan y Tîm drwy ei wneud yn Llywydd am Oes.

Fe'i cofiaf fel Capelwr hefyd. Bu yn aelod ffyddlon a gwerthfawr yng Nghapel Coch gan fynychu'r oedfaon yn gyson a di-fwlch. Nid oedd yn hoffi sylw na stŵr a dywedodd wrthyf sawl tro mai 'un o sêr y llongwrs' oedd ef, hynny yw, un oedd yn hoffi eistedd yn dawel i addoli mewn oedfa. Na, nid oedd yn hoffi cyhoeddusrwydd. Ond fe greodd swydd arbennig, sef Croesawydd. Byddai yn sefyll yn y cyntedd cyn cychwyn yr oedfa, yn estyn gwahoddiad twymgalon i bawb, yn arbennig i ymwelwyr a phregethwyr. Yr oedd ei gyfarchion a'r ysgwyd llaw cadarn yn arweiniad delfrydol i addoliad.

Roedd Twm John hefyd yn Gristion mewn gweithred a gair. Mawr iawn oedd ei barch at ei gyd-ddyn, yn barod ei faddeuant, yn ddoeth mewn gair o gyngor ac yn llawn teimlad. Gwnaeth ei orau i'r gymdeithas ac fe gofiwn amdano drwy yr hyn a gyflawnodd yn gyson.

Daeth englyn o waith Norman Closs Parry i'm llaw. Englyn ydyw er cof am Twm John. Mae'n amlwg fod y bardd o'r Fachwen wedi ei adnabod yn iawn a chawn ddarlun o fywyd Twm John yn gryno a chywrair gan Closs.

Felly yr wyf am derfynu yr ychydig eiriau hyn gyda'r englyn.

Er Cof am Twm John

Samariad – gôl-geidwad y gŵr – soled
a sylwedd, capelwr;
bu'n arbed gôl Gwardwr
fel angel dirgel, bu'n dŵr.

John H. Hughes

Er Cof am Thomas John Roberts (Twm John)

Dyn ffwtbol oedd Twm John. Dyn ffwtbol Llanberis oedd Twm John. Dyn roddodd wasanaeth oes i ffwtbol oedd Twm John.

Dyn â barn bendant a dyn â gweledigaeth. Dyn wnaeth ennill parch nid yn unig ardalwyr lleol ond y rhai oedd yn gweinyddu'r gêm drwy ogledd Cymru. Y deyrnged fwyaf iddo yw'r graen sydd ar drefniadaeth pêl-droed ieuencid yn Arfon bellach. Hefyd, fod y drefn honno yn cynhyrchu chwaraewyr i'n timau lleol. Â balchder, roedd yn Aelod am Oes o glwb Llanberis.

Hyfryd oedd clywed un o 'gywion' Twm John – erbyn hyn yn weinidog y teulu – John Pritchard, Capel Coch, yn ei deyrnged yn cofio dechrau ei yrfa bêl-droed i Lanberis yn nhîm dan 14 Twm John. Cyfeiriodd John at y trefniadau trylwyr, y gofai a'r ymfalchio yn safon y perfformiad. Roedd ethos y gêm yn bwysig i Twm John. Bonws ar ddiwedd tymor oedd y tlysau.

Yn ei dro bu Twm John yn chwaraewr, pwyllgor-ddyn, cadeirydd a thirmon am gyfnod i glwb Llanberis. Tipyn o gyfraniad, ond ei brif gyfraniad oedd i dimau ieuencid y clwb. Bu yno yn gefn i'r ieuencid am bron i 50 o dymhorau. Yn y 60au roedd yn un o sylfaenwyr Cynghair ieuencid Gwyrfaei. Bu yn gysylltiedig â'r tîm dan 14 ar hyd y bedlan. Dyma'r oed pwysig, ble y gellir cynnal diddordeb i'r ieuencid barhau i chwarae'r gêm neu colli diddordeb. Dangosodd Twm John ffydd yn ei 'blant' ac yn sicr bu cryn elw i glwb Llanberis o'r ymroddiad diflino yma.

Yr oedd y nifer o gynrychiolwyr Cynghreiriau Gogledd Cymru – gan gynnwys Cyn-Lywydd Cymdeithas Bêl-droed Cymru – yn yr angladd yn tystio i'r edmygedd o gyfraniad Twm John.

Yr oedd urddas y gwasanaethau yn Eglwys Sant Padarn a'r Amlosgfa yn adlewyrchu cysondeb a ffydd Twm John yn ei ardal a'i fro. Â graen, talwyd y 'gymwynas olaf' iddo.

Yn naturiol, drwy lygaid ei gariad at 'y gêm' rwyf wedi llunio hyn o deyrnged. Fel y cyfeiriwyd yn yr angladd roedd ei gyfraniad yn fawr mewn sawl maes. Yn gefn i lawer. Yn un drwy brofedigaeth deuluol lem, a barhaodd i rannu ei brofiad. Un â nerth mewnol cryf oedd Twm John. Y cwmniwr, y 'ffrind' tawel, wrth law yn gymorth.


Ni lwyddodd salwch y blynyddoedd diwethaf amharu ar bositifrwydd y gŵr arbennig yma. "Yn ei dŷ, brenin o dad - diguro led ei gariad."

Cydymdeimlaf ag Eileen, Reg, Ronnie a Iona yn eu colled.
Heddwch i'w lwch.

Er cof am Twm John

Teulu, byd y bêl, capelwr, - i blant,
ar y blaen, ysgogwr.
Mewn eisiau, cymwynaswr;
a hyn i gyd mewn un gŵr.

Richard Llwyd Jones



CHRIS GRIFFITHS

Trwsio Ffenestri UPVC • Drysau
Cloeau • Bachau • Twll Llythrau
Ac unedau Gwydr wedi Chwythu

18 Mill Lodge, Llandegfan, Ynys Môn LL59 5YB
01248 713 369 neu 07813 455653

Diwrnod Corddi

Ychydig iawn o bobl yr oes yma sy'n gyfarwydd â'r hen ddull arbennig o gorddi a gwneud menynd. Roedd y grefft yma yn yr hen ddyddiau yn rhywbeth hollol gyffredin a diddorol i mi fyddai gwrando ar mam yn sôn am yr amser pan fyddai'r teulu yn mynd ati ers talwm i gorddi a gwneud menynd yn eu cartref ar fferm Plas Isa, Betws Garmon.

Diwrnod prysur yn y tŷ laeth fyddai diwrnod corddi, gyda'r olwyn ddŵr wrth dalcen y tŷ yn byrlymu a chwynnelli wrth droi yr echel a gysylltai'r olwynion â'r gwregys lledr i droi y fuddai. Dros y ffordd â'r tŷ roedd llyn bychan, llyn corddi fel y'i gelwid, gyda nant fechan yn llifo iddo o fynydd Moel Gron. Yn agos at ei waelod roedd caead haearn a chylch arno a dynnwyd ar ddiwrnod corddi i adael i'r dŵr lifo allan i weithio'r olwyn ddŵr. Ar yr ochr arall roedd agoriad tebyg i ffenestr fechan yn wynebu ffos yn y cae rhag gorlifiad wedi i'r caead ei ailosod.

'Llaeth cadw' y gelwid y laeth a gesglid yn ddyddiol ar ôl ei odro. Rhaid oedd hidlo'r llefrith cynnes o'r beudy drwy hidlan â dau waelod arni. Rhwng y ddau waelod gosodwyd padiau o wllan cotwm i rwystro amhuredd fynd drwodd i'r pot, yna ei adael am ddeuddydd neu dri cyn ei gorddi i dewychu. Roedd y tymheredd yn holl bwysig yn yr haf gan fod gwres yr haul yn amharu ar y laeth gan ei wneud yn siarp ei flas. Pan fyddai'r hin yn oer yn y gaeaf, ceid ambell drafferth i gael y laeth cadw i dewychu, felly yn ffordd o rwystro hyn oedd gwneud nyth o wair mewn celwrn pren a gosod y pot laeth ynddo rhag rhynnu. Yn gaeaf ar y pot gosodwyd llechen bwrpasol a wnaethpwyd yn y chwarel. Roedd y llechen yma yn cynnwys dwy ystyllen gul wedi eu gosod ar ei thraws gyda dwy goes arall yn groes iddynt, ac un fechan ei maint wedyn fel handlen i'w chodi. Roedd gan fy nhaid a nain yn eu meddiant ddwy lechen o'r fath a gawsant yn anrheg gan gymydog a weithiai yn Chwarel Cors y Bryniau. Yn ogystal â hyn, defnyddiwyd y ddwy lechen i ddal y menynd ar ôl ei wneud yn bwysig ac yn barod i'w werthu, neu efallai ei gyfnewid am neges yn siop y pentref. Cyweirio a elwid y dull o drin menynd, a printan oedd y gair am y menynd na fyddai, ar y diwedd, yn ddigon i wneud pwys. Gwnâi y printan anrheg bach i ambell ffrind neu gymydog, a gofalai nain bob amser lunio ar ei wyneb lythyren gyntaf enw y sawl â'i derbynai, gan ei wneud i edrych yn fwy arbennig.

Pan fyddai ambell lwyaid o fenyn dros ben fe'i rhoddid yn glapiau bychain ar bared neu wal y tŷ gan ei adael am ychydig ddyddiau i lwydo. Defnyddid llwydni y menynd (menyng gwyrdd, fel y'i gelwid) i'w rwbio ar friw neu ddolur fel meddyginiaeth i'r sawl a fyddai angen.

Peth pwysig ynglŷn â llestri a chelfi laeth oedd eu bod wedi eu gwneud o bren, a rhaid oedd streilio rhain drwy eu sgaldian â dŵr berwedig. Ar ddiwrnod corddi gosodid y celfi a'r llestri oedd yn cynnwys y noe, esgyll, buddai, cwpan denau a'r bocs print mewn sedon lechen i eistedd yn y pistyll gyferbyn â'r olwyn ddŵr. Byddai dŵr y pistyll wedyn yn arllwys drostynt nes y byddent wedi mwydo. Pe'u defnyddid heb eu gwlychu buasai'r menynd yn glynu ac yn amhosib i'w gyweirio. Ar ôl pob corddiad cedwid y celfi a'r llestri o dan liain gwyn hyd y tro nesaf.

Yr oedd streilio y dwylo hefyd yn bwysig drwy eu golchi mewn dŵr poeth a soda ynghyd â dyrnaid o halen. Ffordd arall o wneud hyn oedd defnyddio blawd ceirch a'i rwbio ar y croen cyn eu rinsio â dŵr oer. Wrth wneud hyn yn drwyadl nid oedd peryg i'r menynd gydio. Pan fyddai llawnder yn yr haf, cedwid peth o'r menynd o bob corddiad gan roi mwy o halen ynddo cyn ei bacio fesul ychydig i botyn pwrpasol. Wedi i'r pot lenwi, gwnaed heli yn cynnwys halen, saltpetre a dŵr poeth ac wedi iddo oeri, ei dywallt dros y pot i'w gadw'n bur ar gyfer y gaeaf. Potiau pridd llwydion oddeutu saith bwys a ddefnyddid gan nain, gan gwell fyddai rhain na'r potiau pridd mawr. Blas cryf fyddai ar y menynd at waelod y potiau hynny. Rhai o dermau am flas cynnwys y potiau mawrion oedd 'Blas hir yn hel'; 'Blas deilen' a 'Blas llosgi'.

Galwai pobl yn aml ym Mhlas Isa i gael piseriad o laeth enwyn ffres, a rhaid bob amser fyddai cael rhoi ceiniog neu ddwy amdano. Ni fyddent yn fodlon ei gymeryd am ddim. Ar wahân i'w ddefnyddio fel diod, gwnaent fowliaid o fara neu datws laeth i'w fwyta, rhywbeth hollol gyffredin yr adeg honno.

Hen gymeriad a alwai ambell dro yn y fferm oedd hen borthmon gwartheg o'r enw Elis 'Rali' a rhywbeth tebyg i hyn a ddywedai wrth nain,

'Dim te i mi, Musus, powliad o laeth enwyn a brechdan fara ceirch os gwelwch chi'n dda.'

Clowcian chwerthin fyddai nain bob tro y clywai fy ewythr Daniel yn dynwared, chwedl hithau 'Rhen 'Rali' a'i 'bowliaid laeth'.

Hefyd un o'r lliaws o grwydriaid a alwai i gardota wrth y drws oedd hen drempyn, un y byddai'r teulu yn ei alw'n 'Rhen Wyddal Mawr' a doedd dim yn ei blesio yn well na chael llond ei biser tolciog du o laeth enwyn. Weithiau os y byddai'n ddigon lwcus, cai lond ei bocedi o datws drwy'i crwyn. Digri fyddai clywed hwn wrth dderbyn y tatws yn gofyn am 'A pinch of salt for the old woman'. Pwy oedd yr old woman? Does wybod, ond dyna ei ffordd ef o ofyn am halen.

Pan fyddai anhwylder ar rywun ac yn methu â chymryd lluniaeth, beth well yr adeg honno na glastwr cynnes i glirio'r cyfansoddiad. Y ffordd o wneud hyn oedd tywallt dŵr poeth ar y laeth ac yfed digon o'r gleision. Gwnaed hefyd deisen laeth enwyn, wedi ei chymysgu â laeth (nid llefrith). Cedwid y deisen ar gyfer pobl ddiarth a alwai o bryd i'w gilydd yn y tŷ, ac er fod gan nain rysait ar ei chyfer, synnwyr y fawd a ddefnyddiai bob amser. Fy ewythr Bob glywyd un tro yn cyffelybu hen bregethwr diflas a hir wyntog,

'Roeddwn yn ei weld o'n debyg iawn fel tae o wedi bod yn corddi hen laeth a hwnnw yn cau â dŵad, a'r blaenoriaid yn y seiat ar ôl y cwrdd yn mynd ati i drïo cael y menynd mân yn glapia.'

Fel mae pethau wedi newid!

Gwilym Morris Jones, Bontnewydd

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE

LLANBERIS

FFON- (01286) 870202

Casglu Ysbwriel



Cyn y Nadolig, penderfynodd Dilwen a Sophie o'r Ysgol Feithrin hel criw i dwtio strydoedd y pentref a oedd mewn cyflwr ddigon blêr

yn dilyn y tywydd mawr diweddar. Daeth criw bychan gweithgar ynghyd a chasglwyd nifer o fagiâu ysbwriel yn dilyn taith o amgylch y pentref.

Eglwys Crist

Eglwys Crist Cafwyd Gwasanaethau a Chyngerdd cofiadwy dros dymor yr Adfent a'r Nadolig, gan ddechrau gyda'r Cyngerdd nos Sul, Rhagfyr 6. Talentau lleol o ardal Deiniolen oedd yn cymryd rhan gyda Seindorf Arian Deiniolen dan arweiniad Lois Eifion; Parti Cynfi; Parti Ieuenctid Deiniolen; Osian Trefor; Steffan Llewelyn, Caernarfon; Dafydd a Ioan Bean. Llywydd y noson oedd Sioned Ellen Fraser Williams, Bethel a'r Arweinydd oedd oedd Colin Worth.

Diolch i bawb a drefnodd y noson ac i aelodau'r Eglwys a aeth oddi amgylch i werthu ticedi. Mae Deiniolen yn ymfalchio bod cymaint o ddawn a thalent yn bodoli yn yr ardal.

Y Sul canlynol yn ystod y Gosber, dan arweiniad Dr William Munro a Mrs Gwen Griffith wrth yr Organ, cafwyd hanes y Geni ym Methlehem. Gwnaeth y plant eu rhan yn ardderchog, roeddynt yn werth eu gweld a'u clywed. Hyfryd oedd gweld mamau'r plant a rhai o ieuenctid yr Eglwys yn cymryd rhan hefyd.



Mair – Glesni; Joseff – Deion; Bugail – Shane; g?r doeth – Cynan; Angylion – Jessica ac Efa Jên.

Ar ôl dymuno Nadolig Llawen a chanu 'Pwy sy'n dŵad dros y bryn' cerddodd Siôn Corn i mewn, heb ei ddisgwyl! gan roi braw bleserus i'r plant a chyflwynodd anrheg i bob un. Un o'r Siôn Corn gorau fu ers tro!

Yn yr Ysgol Sul ar 20fed o Ragfyr, cafwyd Gwasanaeth o'r

Cristingl, gan egluro ei ystyr a'i bwrpas ac yna rhoddwyd Oren y Cristingl i bob un plentyn.

I goroni'r cyfan treuliwyd prynhawn difyr yn yr Hwylfan, Caernarfon, cyn mynd am bryd o fwyd a throi am adref.

Dymuna athrawon yr Ysgol Sul ddiolch i aelodau'r Eglwys am eu haelioni ac i rieni'r

plant am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

Naw Llith a Charol a gafwyd y Sul cyn y Nadolig gyda'r Parchedig Carol Roberts yn arwain. Noswyl Nadolig, gyda'r Canon Idris Thomas, cafwyd Cymun y Nadolig. Da oedd gweld cynifer helaeth wedi troi allan ar y noson arbennig yma.

Parhad DEINIOLLEN



Diolch - Bore Coffi Macmillan - hoffai Lynda a Carol ddiolch i bawb am gefnogi y Bore Coffi tuag at Macmillan ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 14eg. Fe godwyd y swm o £185 tuag at yr achos

Llongyfarchiadau i Ann a Malcolm, Llys Malan, ar achlysur eu priodas dros y Nadolig gan y teulu oll.

Mynwent Eglwys Crist Dyma gyfraniadau olaf y flwyddyn i Gronfa Mynwent Llandinorwig. Diolch am eich haelioni ariannol sydd yn ein galluogi i gadw Mynwent yr Eglwys yn daclus; I Mr Berwyn Jones, am fod mor ffyddlon yn torri gwaith a thacluso mor gysion.

Byddwn yn falch o dderbyn unrhyw rodd ariannol er mwyn cario ymlaen y gwaith yma. Bydd Mr Brian Price neu Mrs Gwen Griffith yn falch o dderbyn eich cyfraniadau, neu unrhyw aelod o'r Eglwys.

Mrs Eurwen Roberts, 47 Rhydfadog: £20; Mr a Mrs Ken Gould, Birmingham: £10; Mrs Betty Jones, Tan y Bwlch Uchaf: £10; Mrs Elizabeth Jones, Foel Gron: £10; Di-enw: £10; Mrs Elsie Williams, Bethel (Coed Mawr gynt): £10; Mrs Nancy Marian Williams a'r teulu, 10 Rhes Marian: £20; Mr a Mrs Gareth Wyn Jones, Miskin, ger Caerdydd: £10; Dennis, Eira, Ann a Julie: £40; Mr Brian Price, 14 Hafod Oleu: £10; Mrs Laura Hosker, Cefn y Waun: £20; Miss Margaret Williams, Ael y Bryn: £20; Ms Nesta Barton, Godre'r

Foel: £20; Mrs Mair Roberts, Rhiwlas: £20; Miss Mair Foulkes, 3 Tai Brynhyfryd, Penisarwaun: £40; Di-enw: £5; Bingo Elidir: £100; Mrs Clarice Roberts, Tan yr Henffordd: £10; Mrs Megan Williams, Gaerwen a Mr Hefin Goronwy Jones, Llanrug: £20; Mrs Awen Roberts, Rhuddlan: £10; Mr a Mrs Ernest Jones, Hafan, Porth y Gogledd: £20; Mr Meirion Thomas, 11 Tai Caradog: £50; Diana, John, Rosina ac Eileen: £100; Mrs Elaine Bowser, Llundain: £50; Mrs Gwenda Sayer, Caernarfon: £20; Mrs Delyth Pritchard, Pwllheli: £10.

Y Fynwent Fel y gwyddys eisoes, mae Mynwentydd yr Eglwys yng Nghymru yn peri gofid a loes, yn enwedig i Eglwys y Plwyf, sydd yn gorfod gofalu am ei mynwent heb na chymorth na chyfraniad ariannol gan unrhyw sefydliad.

Ers rhai misoedd bellach mae Adroddiad wedi ymddangos ynglŷn â safleoedd claddu yn y Fynwent. Paratowyd yr Adroddiad yn fanwl iawn gan G.D. Roberts, Cyfarwyddwr Angladdau ym Mhwlheli. Penodwyd ef gan Esgob Bangor i wneud y gwaith, ac roedd Archddiacon Bangor yn ymwneud â hyn oll. Mae'r Adroddiad wedi ei derbyn yn unfrydol gan yr Esgobaeth a holl aelodau Cyngor Plwyfol Eglwysig Llandinorwig. Mae'r Ymgymerywyr lleol wedi derbyn copi ohono ac, yn naturiol, rhaid gweithredu yn ôl yr Adroddiad hwn.

Llongyfarchiadau Ar Rhagfyr 22ain yr oedd Mr John H. Morris, Rhiwen, yn dathlu ei ben-blwydd yn 102 mlwydd oed. Cafodd barti yn Seiont Manor, Llanrug. Ef yw aelod hynaf Eglwys MC Cefnywaun ac y mae'r aelodau oll yn ei longyfarch yn fawr. Ymlaen yn awr Mr Morris am y 103, gan ddymuno pob iechyd a bendith i chi.

Dymuna Mrs Beryl Griffith, 5 Maes Gwylfa, ddiolch o waelod calon i'w theulu, ffrindiau ffyddlon a gofawyr caredig am yr anrhegion a'r lluo o cardiau a dderbyniodd dros y Nadolig. Hoffai ddiolch hefyd i staff a doctoriaid meddygfa Deiniolen a Llanberis am eu gofal ac i'r dynion ambiwlans sydd wedi ei helpu. Blwyddyn newydd dda i chi i gyd.

Fy Mhrofiad i o Symud i Dŷ Llai

Dwi wedi bod yn denant i CCG ers y dechrau a chyda Cyngor Gwynedd cyn hynny. Yn ogystal â bod yn denant dwi hefyd yn aelod o'r Bartneriaeth Tenantiaid a Phreswylwyr, lle dwi'n cael cyfarfod tenantiaid eraill ar draws Gwynedd a chael cymryd rhan yng ngweithgareddau CCG.

Roeddwn yn arfer byw mewn tŷ tair llofft ym Mhentre Helen, Deiniolen, ac wedi byw yno ers mis Hydref 1959. Penderfynais llynedd y byddai'n well i mi symud i dŷ llai gan fy mod yn mynd yn hŷn a fy iechyd yn dechrau dirywio. Roedd byw mewn tŷ mawr tair llofft efo grisiau yn dechrau mynd yn anodd.

Cefais wybod bod gan CCG fyngalo dwy lofft ar gael yn Rhydfadog, Deiniolen, a phenderfynais ei bod yn amser i mi symud, felly mi es ati i wneud cais. Roeddwn yn pryderu braid gan fy mod wedi byw yn fy nghartref ym Mhentre Helen ers dros hanner canrif, ac yn poeni sut byddwn yn symud fy holl ddodrefn, wedi'r cyfan, dwi wedi casglu cryn dipyn o ddodrefn dros y blynyddoedd.

Cefais gymorth a chefnogaeth rhagorol gan Haf Evans, Swyddog Cefnogi Tenantiaid yn CCG. Trefnodd Haf a rhai aelodau eraill o staff CCG i symud fy nodrefn felly doedd dim angen i mi wneud unrhyw drefniadau fy hun. Mae gen i hen set deledu sydd bron yn 40 oed ac mae hwnnw hefyd wedi setlo yn ei gartref newydd.

Roedd y byngalo wedi ei addurno yn foethus cyn i mi symud ac roedd gwybod bod dim angen i mi gerdded i fyny unrhyw risiau er mwyn cyrraedd y drws ffrynt yn gysur mawr. Mae gen i le addas i gadw fy sgwter symudedd yn y cefn hefyd. Dwi'n hapus iawn ers i mi symud yma ac mae bywyd bob dydd yn haws. Fy hoff beth ynglŷn â symud i'r byngalo newydd yw fy mod yn dal i fyw yn yr un pentref a bod y safle bws wedi ei leoli yn agos i'r tŷ newydd.

Alan Parry
Tenant



Diolch am Gefnogaeth ein Cwsmeriaid yn Eryri dros 25 Mlynedd

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451



KERFOOTS EST 1874

136-140 HIGH STREET, PORTHMADOG, GWYNEDD. LL49 9NT

Ref:- ECW

Dewch draw i'r Siop am sbec - mae rhywbeth i bawb yma!
Gorffenwch eich ymweliad a phaned, teisen neu bryd o fwyd blasus mewn awyrgylch hamddenol.

=====

DISGOWNT O 10% WRTH GYFLWYNO'R HYSBYSEB YMA AR NWYDDAU O'R SIOP, NEU FWYD A DIOD O'R TY COFFI.
(Ni chaniateir ei ddefnyddio gyda unrhyw gynigion arall sy'n bodoli ar y pryd)

=====

www.kerfoots.com enquiries@kerfoots.com
Tel: 01766 512256

Parhad LLANRUG

Ysgol Gynradd Llanrug Chwith fu ffarwelio â Mr Robin Williams fel pennaeth yr ysgol ar ddiwedd tymor y Nadolig. Diolchwn iddo am ei wasanaeth dros y blynyddoedd a dymunwn ymddeoliad hapus iddo. Ond, dymunwn hefyd estyn croeso cynnes i Mrs Nia Puw fel pennaeth newydd yr ysgol a gobeithiwn y bydd yn hapus iawn yn ein cwmni. Dymuna Mrs Puw hefyd ddiolch yn fawr iawn am y croeso a'r gefnogaeth y mae hi wedi ei dderbyn gan y rhieni a'r plant ers iddi ddechrau yn ei swydd.

Daeth Mrs Rhian Jones draw o'r NSPCC ar ddechrau'r tymor i gynnal gweithdy a sgwrsio gyda disgyblion blynyddoedd 5 a 6 am y llinell gymorth 'Childline'. Mae genod blynyddoedd 5 a 6 yr ysgol wedi bod yn brysur yn ymarfer ar gyfer twrnamaint pêl-rwyd yr Urdd (ardal Arfon). Bydd y twrnamaint yn cael ei gynnal yn fuan yng Nghanolfan Chwaraeon Arfon yng Nghaernarfon a dymunwn yn dda i'r tîm yn y gystadleuaeth.

Bydd Carwyn (Swyddog Addysg Gorfforol) yn dod draw i'r ysgol dros yr wythnosau nesaf i gynnal sesiynau 5X60 gyda chriw o ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6. Bydd y sesiynau yn hyrwyddo chwaraeon fel rygbi a phêl-droed a bydd y plant yn sicr o'u mwynhau.

Mae blynyddoedd 5 a 6 wedi bod yn brysur hefyd yn ymarfer ar gyfer y Jambori TAG fydd yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Denis Arfon yn fuan. Mae'r Jambori yn hyrwyddo'r siarter iaith ac mae'r plant wrth eu bodd yn canu'r caneuon.

Plaid Cymru Enillwyr Clwb Cant mis Rhagfyr oedd 1. Ifanwy Jones, Brynrefail; 2. Carrie Owen, Llanrug.

Profedigaethau Anfonwn ein cydymdeimlad at John a Mary Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, yn eu profedigaeth o golli chwaer John, Gwenan Madden, yn 62 mlwydd oed.

Bu farw Goronwy Pierce, Garnedd, Bryn Moelyn, yn 68 mlwydd oed yn ddiweddar. Gŵr annwyl Anita a thad caredig Gwynant. Mi fydd yn golled fawr iddynt ac fe gydymdeimlwn â hwy yn eu profedigaeth.

Yn 94 mlwydd oed, bu farw Mrs Jennie Pritchard, Cae Newydd, ar ôl gwaeledd hir. Cofiw'n at y teulu, Elizabeth ei merch a Steven ei gŵr, roedd yn nain a hen nain annwyl iawn.

Hefyd, bu farw Mrs Pritchard, 6 Ffordd Glanffynnon, gweddw Evan a fu farw flwyddyn yn ôl. Cydymdeimlwn ag Emyr a Nia a'r genod, Megan, Moli a Cari a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Diolchiadau Dymuna Nest, Wena, Beth a'r teulu, ddiolch am bob cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn eu profedigaeth o golli tad, taid a hen daid annwyl iawn, sef Islwyn Lewis Jones. Diolch hefyd am y rhoddion a dderbyniwyd at Feddygfa Waunfawr a Chymdeithas Alzheimers.

Hefyd fe ddymuna Kate Owen, 8 Hafan Elan, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed yn ddiweddar. Cafodd barti pen-blwydd yn Hafan Elan wedi ei drefnu gan Barbara, ei merch, a'r teulu. Diolchodd i bawb am yr holl gyfarchion ac anrhegion a dderbyniodd. Diolch o galon i bawb.

Yn dilyn eu profedigaeth o golli Peggy, Lliwedd, Ffordd Glanmoelyn, dymuna Eilir, Avril, Dennis, Dawn a'r plant ddatgan eu diolchgarwch i bawb am eu caredigrwydd yn ystod ei gwaeledd ac yn dilyn yn ystod eu colled. Bu iddynt gael cymorth amhrisiadwy gan weinyddesau arbennig a'r meddygon teulu. Diolch o galon i bawb. Cydymdeimlwn yn arw â chwi fel teulu.

Capel y Rhos Ar y 3ydd o Ionawr, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig o lithoedd a charolau. O dan arweiniad y Parch Ddr Carol Roberts a'r Parch Marcus Wyn Robinson, cyflwynwyd y darlleniadau gan aelodau o Eglwys Sant Mihangel, Capel Brynrefail a Chapel y Rhos. Yr organyddes oedd Mrs Lowri Roberts a gwnaed casgliad i Gronfa'r Ffoaduriaid.

Diolch. Dymuna Mrs Dora Roberts a'r teulu, Min y Parc, Tan y Coed, ddiolch o galon i bawb am eu negeseuon o gydymdeimlad a'u rhoddion yn dilyn marwolaeth ei mam, Mrs Glenys Salisbury, ym Mhlas Garnedd, Llanberis ychydig cyn y Nadolig.

Un funud fach ...

GWEDDÏO YN ERBYN

Nid yw'n syndod i mi fod prif weinidogion ac arlywyddion yn medru gwneud camgymeriadau mawr a phenderfyniadau annoeth. Dyna duedd pobl ffaeledig a phechadurus, wedi'r cyfan. Y syndod yw bod pobl a ddaeth i'r fath swyddi yn medru dweud pethau mor ddychrynlyd o hurt.


Ni chafodd Donald Trump (hyd yma!) ei ethol yn Arlywydd yr Unol Daleithiau, ond dyna'i uchelgais. Pwy feddyliai y gallai ymgeisydd difrifol am yr Arlywyddiaeth fod mor hurt â dweud fod angen gwahardd pob Moslem rhag dod i'r wlad? Sut all neb gredu y gallai hynny fod o help i wella'r berthynas rhwng pobl o wahanol draddodiadau a chefnidiroedd?

Beth bynnag ddaw o Mr Trump, mae David Cameron eisoes yn Brif Weinidog. Mae ganddo swydd anodd, na fynwn i mohoni am bensiwn. Mae ganddo benderfyniadau cymhleth i'w gwneud. Mae wedi gwneud sawl camgymeriad a phenderfyniad anghywir. Wrth gwrs hynny: pechadur ffaeledig ydi o. Ond dydi o ddim yn ddwl. A dyna sy'n gwneud i mi anobeithio o'i glywed yn awgrymu y gall gwagedd a mamau Moslemaidd gael eu hanfon o wledydd Prydain os na fyddan nhw'n dysgu Saesneg. Yn ôl Mr Cameron, mae plant i famau sy'n methu siarad Saesneg mewn perygl o gael eu troi'n derfysgwyr! Sut all dyn sy'n ddigon doeth a gwybodus i fod yn Brif Weinidog ddweud peth mor ynfyd a pheryglus?

Mae mwy nag un rheswm pam fod pobl yn troi at derfysgaeth. Mae Mr Cameron yn dewis peidio â cheisio deall y rhesymau hynny, beth bynnag a pha mor wallus bynnag ydynt. Ond onid yw'r awgrym hwn ganddo'n cynnig rheswm arall i bobl droi yn erbyn y Wladwriaeth Brydeinig a hyd yn oed gael eu denu at derfysgaeth. Sut mae disgwyl i fechgyn a merched ifainc ymateb os bydd y Wladwriaeth yn anfon eu mamau a'u neiniau nôl i wledydd peryglus am na fedran nhw siarad Saesneg? Byddai llawer o'r gwagedd hynny'n wynebu tlodi, digartrefedd, rhyfel, camdriniaeth a thrais, a'r cyfan am eu bod yn euog o'r pechod anfaddeuol o beidio â dysgu'r Saesneg. Ydi Mr Cameron wir mor ffôl â chredu na fyddai hynny'n debygol o gythruddo eu plant a'u hwyrion? Pa syndod pe bai cenhedlaeth gyfan yn dod i gasâu gwladwriaeth ffaidd a fyddai wedi gweithredu felly?

Dylai Cristnogion weddïo 'dros frenhinoedd a phawb sydd mewn awdurdod, inni gael byw yn dawel a heddychlon, yn llawn duwioldeb a gwedduster' (1 Timotheus 2:2). Wrth wneud hynny, gwyddom mai gweddïo a wnawn dros bobl ffaeledig sydd angen doethineb a chymorth Duw i lywodraethu'n gyfiawn er lles eu pobl. Ond weithiau, mae angen gweddïo yn erbyn llywodraethwyr os yw eu bwriadau'n amlwg ddrwg a pheryglus. A dyma un o'r achlysuron hynny. Gweddiwn na ddaw Mr Trump a'i bolisiau ffaidd i'r Tŷ Gwyn. Gweddiwn na chaiff Mr Cameron ei ffordd, ac na ddaw ei syniadau peryglus yn bolisi llywodraeth. A gweddiwn nad yw ei eiriau eisoes wedi gwneud y drwg mawr y mae pawb rhesymol yn ofni y gallan nhw ei wneud.

JOHN PRITCHARD




FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.fframia.com



Ar ben arall i'r lein

Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll - dydi'r blynyddoedd 'ma yn hedfan heibio 'dwch!

'Roeddwn yn meddwl y buasai'n bosib cael symud ymlaen eleni oddi wrth broblemau Llyn Padarn a'r Seiont, ond yn anffodus mi fyddaf yn eich syrffedu am ychydig eto gyda beth sy'n mynd ymlaen mae gennyf ofn.

Addewais yn fy adroddiad diwethaf y buaswn yn rhoi gwybodaeth ar ganlyniad ein cais i'r Uchel Lys am Adolygiad Barnwrol ar benderfyniadau gwantan Cyfoeth Naturiol Cymru i reoli a gweithredu'n gadarn i oresgyn problemau llygredd a dirywiad yn y bysgodfa yn ei sgil. Wrth gwrs, fe ddaeth penderfyniad yn cadarnhau fod Dŵr Cymru yn gyfrifol am y llygru ond fod y llygredd, am rhyw reswm, ddim yn gyfrifol am broblemau'r torgoch. Mae pawb lleol yn ymwybodol fod llygredd yn cael effaith niweidiol ar pob math o rywogaethau, yn cynnwys pysgod. Ond yn anffodus 'dydym ni fel trigolion lleol ddim yn arbenigwyr ac, wrth gwrs, rhain sydd yn cael y gair olaf.

'Roedd yn brofiad bod yn y llys yng Nghaernarfon yn gwrando ar Far Gyfreithwyr yn cynrychioli Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn dadlau mai nhw oedd yr arbenigwyr a nhw oedd yn gwybod orau. Doedd ddim ots be oedd cynrychiolwr y Gymdeithas yn ddweud, y nhw oedd yn iawn. A wyddoch i be, fe ddisgynnodd y barnwr ar eu hochr nhw. Er, mewn gwirionedd, nid oeddwn yn disgwyl llawer mwy - yr argraff gefais oedd fod pethau fel hyn ddim i fod i ddigwydd, sef bod rhyw glwb bach o bendraw byd yn meiddio herio grym Llywodraeth Cymru a'i chriw.

Canolbwynt ein hachos oedd fod yr awdurdodau, cyn belled ac y mae Llyn Padarn yn y cwestiwn, yn anwybyddu ddeddfau Ewrop ar warchod yr amgylchedd, gan fod llywodraethau'r ynysoedd yma i fod wedi mabwysiadu'r deddfau perthnasol ac mae rhain i fod yn weithredol ers 2007.

Wel dydi'r gweinidogion yma yng Nghaerdydd ddim yn swil o grochlefaen pa mor arbennig yw'r Gymuned Ewropeaidd a bydd Cymru mewn argyfwng difrifol os bydd pleidlais yn dod i dynnu allan o Ewrop. Ond dyma ni yn y llys yng Nghaernarfon a bar gyfreithiwr ein llywodraeth yn dadlau nad yw Cymru wedi mabwysiadu rhannau o'r ddeddf, a'r deddfau hynny yw'r rhai sy'n gwarchod ein rhywogaethau prin, yn cynnwys y torgoch. Dydi hi'n

hen stori yn tydi - eisiau arian ond ddim eisiau cadw at y rheolau. Yn anffodus fe gytunodd y barnwr â nhw.

Yn ôl pob golwg bydd oblygiadau difrifol i warchod yr amgylchedd drwy'r Deyrnas Unedig os bydd y dyfarniad yma'n sefyll. Gofynnwyd i'r barnwr am yr hawl i apelio yn erbyn ei ddyfarniad - gwrthododd yn bendant. Oherwydd hyn, y cam nesaf oedd gwneud cais apêl swyddogol i'r Llys Apeliadau yn Llundain. Rydym, drwy Fish Legal, wedi cymryd y cam yma. Cawn weld ymhén y mis pa sylwadau ddaw o'r ddinas fawr 'na.

Gobeithio bod pawb wedi goresgyn y tywydd garw 'na yn dilyn y Nadolig. Bu ychydig ddfirod i'r ddeorfa yn Crawia, sef rhan o ffos y felin wedi dioddef tipyn o erydiad. Gan feddwl fod yr adeiladwaith yma wedi bod mewn bodolaeth am dros 150 mlynedd mae'n parhau'n wyrthiol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dod â rhyw fath o ymgynghoriad arall allan, y tro yma mae'n bwriadu dod â rheolau newydd i mewn - ia mwy o reolau - i atal cadw eog neu frithyll môr at y badell. Yr unig rai sy'n cael eu cosbi am eu methiant nhw i reoli llygru a materion eraill sy'n amharu ar ein dyfroedd ydi ni y pysgotwyr! Efallai bod rhyw agenda gudd yn ymlwybro coridorau'r llywodraeth 'na yng Nghaerdydd, sef bod yn rhaid cymryd camau i atal pysgota'n gyfan gwbwl. Os byddant yn llwyddiannus i wneud hyn yna mi fuasai eu bywydau yn esmwyth braf gyda neb i godi ymwybyddiaeth nac i gwyno am y llygru beunyddiol sy'n difetha ein dyfroedd.

Er hyn i gyd rhaid bod yn bositif, ac ar pob dechrau tymor mae ias trin yr enwair yn codi nes, erbyn 3ydd o Fawrth mae'n annioddefol, ac allan fydd rhai mynd. Dwi'n meddwl mai i Stablau yr af i agor y tymor, ac wedyn i lawr am Crawia. Mae digon o blu wedi eu clymu dros y gaeaf. 'Sgwn i fydd eu blas ar y pysg.

Tra yn cawio dros y gaeaf dwi di ceisio efelychu rhai patrymau allan o Ddyddiadur Robert Thomas, Erw Pwll y Glo. a fu'n cadw cofnod manwl o'i sgota yn y fro rhwng Mawrth 1809 a Awst 1824. Mae yn ganmoladwy iawn o'r Llwyd Corff Main (Blue Dun). Gyda'r bluen yma, lliw yr hacle sydd yn holl bwysig, sef rhyw lwyd las, fel lliw llechen. Mae'n anodd iawn cael y lliw iawn, mae'n amlwg fod Robert yn cael yr un drafferth, gan ei fod yn dweud mai'r unig bluen fyddai'n gwneud oedd un o iâr a adnabyddir fel Jack Lloyd. Sgwn i a oes rhywun yn gwybod rhywbeth am y brid yma?

Huw Price Hughes.



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia



ARVONIA

- Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp.
- Tocynnau rhodd.
- Llyfryn Gwyliau 2014 ar gael nawr.

01286-675175 | www.arvon.co.uk

Diolch Dymuna Wena Haf Green ddiolch am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth Tomi Lewis. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Nest, Wena, Beth a'r teulu ddiolch am bob cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn eu profedigaeth o golli tad, taid a hen daid annwyl iawn, sef Islwyn Lewis Jones, Y Garn, Llanrug. Diolch am y rhoddion a dderbyniwyd at Feddygfa Waunfawr a Chymdeithas Alzheimers. Hefyd diolch o galon i Gartref Nyrsio Penisarwaun am y gofal diflino a charedig.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Rhagfyr oedd Efan Jac Roberts Rhif 20. Llongyfarchiadau. Diolch i bawb am gefnogi'r bel bonws yn ystod 2015. Pob lwc i bawb yn 2016!

Llongyfarchiadau i Tania Jones 16, Bryn Tirion, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar Ionawr 12fed. Pob lwc i ti yn y dyfodol.

Llongyfarchiadau mawr i'r pentrefwyr newydd, Sharon a Dave Cunningham, Trefalyn,

ar eu priodas yn mis Rhagfyr. **Gwellhad** Dymunwn wellhad buan i bawb sydd ddim wedi bod yn teimlo'n dda yn ddiweddar.

Ysgol Gymuned Penisarwaun

Sioe Tag a Jambori - Cafodd Bl 5 a 6 wahoddiad i fynd i Ganolfan Tennis Arfon bore Llun, Ionawr 18fed, i weld y sioe a drefnwyd ar y cyd gan S4C, Siarter Iaith Gwynedd, Urdd Gobaith Cymru a Bardd Plant Cymru. Roedd pawb wedi cael hwyl a mwynhau.

Ymweliad â Phlas Menai - Cafodd Bl 3, 4, 5 a 6 gyfle i dreulio diwrnod yn Plas Menai dydd Mercher, Ionawr 27ain. Bu pawb yn brysur iawn yn cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau awyr agored.

Disco - Mae "Cyfeillion" yr ysgol wedi trefnu noson disco i ddathlu Sant Ffolant yn y Neuadd Gymuned am 6 o'r gloch nos Iau, Chwefror 11eg. Croeso i bawb ddod draw i gael hwyl a chodi arian ar gyfer cronfa'r ysgol yr un pryd.

Gwellhad - Dymunwn wellhad buan i Miss Lowri Williams sydd ddim wedi bod yn dda yn ddiweddar ac edrychwn ymlaen i'w chroesawu nôl i'r ysgol yn fuan.

Ysgol Sul Bosra Croesawyd nifer dda o aelodau i'r Ysgol Sul fore Sul, Ionawr 11eg. Rydym i gyd yn anfon ein cofion anwylaf at Mr Evie Jones, sy'n cael triniaeth yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, ac yn diolch iddo efa'i chwiorydd, Nancy a Dilys, am eu caredigrwydd i'r Ysgol Sul drwy 2015. Byddwn yn canolbwyntio ar y gwahanol Saint gan gychwyn gyda Santes

Dwynwen, Ffolant, Dewi a Padrig ac yna mwynhau gweithgareddau yn ymwneud â Chwedl Melangell, Santes yr Anifeiliaid. Byddem yn hynod ddiolchgar o unrhyw lyfrau ac adnoddau am yr uchod.

Pwyllgor Neuadd

Gymuned Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol nos Lun, Ionawr 18fed, yn yr Ystafell Gymuned am 7 o'r gloch. Darllenwyd cofnodion 2015 a chafwyd adroddiad manwl gan y Trysorydd. Dymunir atgoffa aelodau ffyddlon y Clwb 100 ei bod hi'n amser adnewyddu'r aelodaeth a diolchir i bawb am eu cefnogaeth yn 2015. Mae croeso gynnes i aelodau newydd - dim ond £6 y flwyddyn - mae Archeb banc ar gael gan Glyn a Leslie Larsen, y trysoryddion. Mae'r Clwb Cant yn hwb tuag at y gost o reoli'r Neuadd Gymuned. Tynnwyd Clwb Cant Ionawr a'r enillwyr oedd: 1. Rhian Thomas, Seion; 2. Eric Jones, 17 Bryntirion.

Cynhelir Pwyllgor nos Lun, Chwefror 22ain, am 7 o'r gloch yn yr Ystafell Gymuned i drefnu dathlu Gŵyl Ddewi bnawn Mawrth, Mawrth 1af, am 2 o'r gloch.

Eisteddfod Bentref

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol ar nos Lun, Ionawr 18fed, am 7.30 yn yr Ystafell Gymuned. Darllenwyd cofnodion pwyllgorau 2015 ac fe'u cafwyd yn gywir. Penderfynwyd cynnal Eisteddfod 2016 ar nos Wener, Gorffennaf 1af. Cynhelir pwyllgor i ddewis Beirniaid a chynnal gweithgareddau codi arian nos Lun, Chwefror 22ain, am 7.30 yn yr Ystafell

Gymuned.

Estynnwyd ein cydymdeimlad llwyr ag Eifion a Judith Harding a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam Eifion, mam-yng-nghyfraith, nain a hen nain annwyl.

Llongyfarchiadau

Dymuniadau gorau i Eiriona ar ddathlu pen-blwydd arbennig gan y teulu a phawb yn y pentref.

Llongyfarchiadau hefyd i Judith ac Eifion Harding ar ddod yn nain a thaid balch am yr eildro - y tro hwn i Nanw Grug, merch fach i Cenin a'i chymar.

Diolch Dymuna aelodau y Clwb Pensiynwyr ddiolch o galon i Mrs Ash, Liz a Jean am drefnu Cinio Nadolig arbennig i bawb yng Ngwesty'r Buckley, Biwmares ar Sadwrn cyn y Nadolig. Bu'n bnawn o gymdeithasu a chyfle i rai fynd rownd y siopau.

Tâl am yr Eco Dymuna Ann Ifans atgoffa prynwyr yr Eco o Bryn Eglwys, Llys y Gwynt ac eraill y bydd yn casglu'r arian ddiweddd Mawrth ar gyfer 2016-17, sef £7 am y flwyddyn. Diolch am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

RHOSTIO MOCHYN

Gyda saws afal a stfffin mewn rholiau

**AR GYFER
POB
ACHLYSUR**

**DEWGS MAE
O'N FLASUS**

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!

Cysylltwch a

**John Brynafon
LLANRUG**

www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm



Hywel Williams
Aelod Seneddol Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo

Nos Fawrth 15fed o Ragfyr 2015 am 19:00 yn y Sefydliad Coffa, Llanrug. Cafwyd cyflwyniad gan Anwen Davies o Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r toriadau sydd ar y gweill a rhoddwyd cyfle i'r aelodau ei holi ar nifer o faterion.

Mynegwyd fod y Cyngor eisoes wedi derbyn cyfrifoldeb am rai gwasanaethau y mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol amdanynt yn nifer o ardaloedd o fewn y Sir. Pe byddai disgwyl i'r Cyngor gymryd gweithgareddau eraill ymlaen, byddai'n anodd ymdopi â'r gwaith ychwanegol.

Adroddwyd fod Cyngor Llanrug eisoes yn cynnal mynwent y plwyf a'r Caeau Chwarae a'i fod hefyd yn cyfrannu tuag at gynnal llwybrau cyhoeddus.

Roedd pryder eisoes wedi'i fynegi wrth Gyngor Gwynedd am ddiffyg biniau baw cŵn oddi amgylch y pentref ac ein bod wedi bod mewn trafodaethau â Chyngor Gwynedd am fwy o finiau ond hyd yma heb ymateb.

Blwch Post ger Swyddfa Bost Llanrug

Adroddwyd fod y Cynghorydd Charles Jones wedi derbyn cadarnhad gan y Post Brenhinol eu bod yn bwriadu ei symud yn y dyfodol agos.

Coed Nadolig

Adroddwyd fod y coed Nadolig yn eu lle a chytunwyd eu bod yn edrych yn dda iawn. Diolchwyd i'r Cynghorydd Nan Humphreys am ei gwaith yn trefnu'r coed ac i'r aelodau fu'n helpu i osod y goleuadau ar goeden Llanrug.

Parcio

Adroddwyd fod parcio yn parhau yn broblem ac ein bod wedi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn holi a fyddai modd cael warden i oruchwylio parcio yn y pentref. Adroddwyd fod ymateb wedi dod gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau y byddent yn cadw llygad ar y sefyllfa,

Ceisiadau Cynllunio

'Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau canlynol:

* Diwygio amod i ganiatâd cynllunio er mwyn newid dyluniad y toeau a newid lefel llawr plotiau 3 a 4 Tir ger Parc Isaf, Llanrug

* Ail leoli drws mynediad a chreu agoriad newydd yn y wal derfyn i'r ffordd ddosbarth er hwyluso mynediad i berson anabl - Gwydryn, Ffordd yr Orsaf, Llanrug,

* Estyniad llawr cyntaf i gefn yr annedd - Fron Helyg, Lon Groes, Llanrug Cynllun Gwarchod y Gymdogaeth

Adroddwyd fod cais wedi dod i law gan yr heddlu yn gofyn i'r Cyngor Cymuned hybu'r cynllun o fewn y gymuned. Adroddwyd fod y drefn bresennol yn cael ei hail lansio a gwahoddir geisiadau am wirfoddolwyr i gychwyn y cynllun.

Adroddiad Ombwdsman Cymru ar bolisi iaith Cyngor Cymuned Cynwyd Trafodwyd yr uchod ac fe adroddwyd fod cyfleuster i gyfieithu ein gwefan 'Google' wedi'i ychwanegu ar ein gwefan. Adroddwyd ymhellach nad yw hwn yn cyfieithu dogfennau, megis agenda a chofnodion, ond gellir eu cyfieithu drwy ddefnyddio 'cut and paste' drwy 'Google Document Translate'.

Grantiau

Penderfynwyd cyfrannu £700 tuag at Glwb Llewod Llanrug ar dderbyn mantolen ariannol.

Maes Parcio ger sgwâr Llanrug.

Penderfynwyd derbyn dyfynbris gan Gyngor Gwynedd am beintio'r llinellau.

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Llanddeiniolen

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a Gynhaliwyd yn Ysgol Gymuned Penisarwaun

Nos Fawrth Sed Ionawr 2016

Yn bresennol :- Y Cadeirydd Miss Phyllis Ellis a'r Cynghorwyr, Sion Jones, Elfed Williams, Richard Ll. Jones, Idris Thomos, a R. Hefin Williams.

Gweddi. Offrymwyd gair o weddi gan Richard Ll. Jones

Rydym fel Cyngor yn Cydymdeimlo â theulu Twm John a fu mor weithgar yn ardal Llanberis, ond wedi cael cysylltiad mawr gyda phlant a phobl ein plwyf ni yn Llanddeiniolen.

Ymddiheuriadau. Phyllip Jones, Aled Green, Carolyn Roberts, Geraint Elis, Rhian Evans

Cofnodion cyfarfod 1af Rhagfyr 2015.

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Rhoddion Ariannol - Derbyniwyd 2 lythyr o ddiolch gan gymdeithasau lleol a dderbyniodd rodd ariannol gan y cyngor.

Adnewyddu Tai Bryntirion - Derbyniwyd ymateb i'r llythyr a yrrwyd i sylw Mr. Ffranccon Williams, Prif weithredwr CCG. Gobeithir yn wir gychwyn ar y gwaith sydd angen ei wneud ym mis Chwefror, pan fydd y gwaith papur cyfreithiol i gyd wedi ei gwblhau. Disgwylir i'r gwaith gymeryd hyd at 6 wythnos i'w gwblhau. Mae CCG yn rhoi addewid eu bod yn ceisio gwneud popeth posib i drio hwyluso'r gwaith er mwyn gallu symud tenantiaid yn ôl i'w cartref, ac i sicrhau nad oes gan CCG eiddo yn sefyll yn wag.

Biniau Halen - Derbyniwyd ymateb o'r Adran Prifffyrdd yn cadarnhau fod biniau halen yn mynd i gael eu ail osod/atgyweirio yn yr ardaloedd lle roedd pryder yn Rhiwlas.

Mae gwaith ymchwil ynghylch cost y biniau halen ar ôl Ebrill 2016 dal yn mynd ymlaen.

Glanhau Systemau Draenio - Cafwyd llythyr yn datgan fod rhaglen glanhau penodol yn bodoli, ac hefyd yn dilyn hyn yn ceisio rhoi mwy o sylw i'r ardaloedd rheini sydd yn tueddu i flocio neu lle mae hanes o lifogydd yn amlach.

Gohebiaeth a materion eraill

Cyfyngiadau Parcio Bethel - Derbyniwyd llythyr i'n rhybuddio fod na ystyried cyflwyno neu ddiddymu cyfyngiadau parcio mewn 3 lleoliad ym Methel.

Un Llais - Bu i 2 aelod fynychu y cyfarfod ardal o Un Llais. Yn y cyfarfod soniwyd fod cais wedi ei roi i gael Statws Treftadaeth yn ardaloedd y diwydiant llechi a Chwareli. Gallai hyn fod o fudd i ddatblygu yr economi yn yr ardaloedd yma. Gobeithio bydd penderfyniad oddeutu canol mis Mawrth.

Cynllunio

Glasgoed Hall - Addasiad mewnol i dŷ annedd.

Gwefan

Trafodwyd dogfennau perthnasol a'r wybodaeth oedd Delwedd ei angen i orffen adeiladu'r Wefan.

Cyllido

Penderfynwyd nad oedd digon yn bresennol i roi barn ar hyn yn y cyfarfod. Serch hynny, roedd y clerc wedi paratoi rhestr o'r taliadau sefydlog sydd angen cyllido ar eu cyfer yn flynyddol.

O gwmpas y Bwrdd

Llifogydd - Daeth awgrymiad fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi caniatâd i First Hydro ollwng dr o Marchlyn Bach sydd yn cyfrannu at lifogydd ym Mrynrefail, gan fod y dŵr yn mynd lawr drwy afon Caledffrwd i Frynrefail. Gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymchwilio.

Gwasanaeth Brys Ambiwylans - Daeth i sylw fod un o drigolion hyn ein hardal wedi disgyn gartref, ac wedi cael anafiadau. Bu yn disgwyl am oddeutu awr a hanner am baramedic. Penderfyniad y paramedic oedd galw am ambiwlans i fynd â'r claf i'r ysbyty. Gan fod y claf wedi cael anaf pen, roedd yn rhaid i'r paramedic aros gyda'r claf, a buont yn disgwyl am 6 awr i'r ambiwlans gyrraedd. Rhaid cofio bod y gwasanaeth yma i fod i gyrraedd mewn 8 munud. Clerc i yrru llythyr i Wasanaeth Betsi Cadwaladr.

Cronfa Ddŵr Terfyn - Mae llifogydd ofnadwy yn dod lawr Lôn Giarrat o Gronfa Ddŵr Terfyn sydd yn gorlifo i'r lôn ac i lawr heibio Capel Sardis yn Ninorwig, clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd.

Groesfan King Arthur - Mae ceir yn parcio yn agos i groesfan King Arthur. Clerc i roi cais yn gofyn oes posib llinellau melyn i arbed hyn.



POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com



KEVIN DAVIES
Plastrwr Profiadol

Pob math o waith
cynnal a chadw
- mewnol ac allanol
Amcan-bris am ddim

Ffôn: 01286 650655
Ffôn symudol: 07918733510
e-bost: kevindavies6287@gmail.com



O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanberis

COFNODION TACHWEDD 2015:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, ar nos Fawrth yr 17eg o Dachwedd 2015 am 7 yr hwyr.

PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Emlyn Baylis, Barry Davies, Eurig Druce, Olwen Gwilym, Iwan Harding (Cadeirydd), Derek Jones, Helen Sharp,

Ward Peris: Iola Owen, Gwenda Roberts, Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Bethan Holding, Gwilym Evans, Trystan Thomas.

CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fawrth y 27ain o Hydref, 2015 fel rhai cywir.

MATERION YN CODI O'R COFNODION:

1. Mainc Lechen:

Cafwyd adroddiad gan y Clerc ei fod wedi sicrhau saer i drwsio'r fainc a defnyddio coedyn derw lleol yn lle'r llechen. Mae'r coedyn wedi ei archebu ac i gyrraedd yr wythnos nesaf. Bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd Tachwedd os bydd y tywydd yn caniatáu. Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd (CG) wedi holi a fyddai'r Cyngor Cymuned (CC) yn awr yn cymeryd gofal y Fainc. Cytunwyd ar hynny ac ar awgrym y Clerc i gymeryd gofal y tair mainc arall yn ogystal fel bod y CC yn gyfrifol am y 4 mainc yn yr ardal yma.

2. Cae Chwarae:

Mae CG wedi archebu'r offer, ac mae ar y ffordd.

3. Palmentydd Llanberis

Adroddwyd bod llythyr wedi ei anfon ynglŷn â rhai rhwystrau ar balmentydd y Stryd Fawr, ac fod eraill i'w hanfon eto.

4. Biniau Halen:

Er gofyn ddwy waith i CG chafodd Barry Davies ddim rhestr gywir o finiau halen y pentref. Addawodd y Clerc anfon y rhestr a gafodd ef gan CG a gofynnwyd i bawb edrych yn ofalus ar leoliadau'r biniau yn eu hardal hwy ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf. Roedd nifer o gynghorau cymuned lleol wedi ymateb gyda siom i fwriad CG i waredu'r biniau neu gael y cynghorau i'w mabwysiadu. Roedd nifer yn ystyried y ffordd ymlaen, a'r mwyafrif yn cwyno am benderfyniad CG.

MATERION ERAILL:

1. Parcio Palmentydd, Llysoedd:

Adroddwyd fod fan wen yn aml wedi parcio ar y palmant ym mhen gorllewinol y Stryd Fawr a hynny gyferbyn â lle mae rhes o geir wedi parcio ar yr ochr arall. Adroddwyd fod hyn yn beryglus yn enwedig yn gynnar yn y bore adeg mae'r plant yn mynd i'r ysgol. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r heddlu ynglŷn â'r mater. Y nhw, yn ôl y Clerc, sydd â chyfrifoldeb yn ôl y cyngor a gafodd gan CG. Adroddwyd hefyd bod nifer o gerbydau wedi cael tocyn parcio yn gynnar yn y bore mewn mannau llawer llai peryglus yn y pentref.

2. Ffordd Capel Coch:

Mae gyrru peryglus ar Ffordd Capel Coch, a chafwyd ar ddeall y bu ond y dim i ddamwain ddigwydd yn y bore adeg mynd i'r ysgol yn ddiweddar. Unwaith eto penderfynwyd cysylltu â'r heddlu yn lleol.

GOHEBIAETH:

1. CG - Adran Rheoleiddio - Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd:

Cais o dan Ddeddf Trwyddedu 2013 gan Westy Victoria, Llanberis i ymestyn oriau agor a gwerthu alcohol. Mae'r cais yn gofyn am hawl i werthu o 11 y bore hyd hanner nos o ddydd Llun i ddydd Iau, o 11 y bore hyd 2 y bore wedyn ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn ac o hanner dydd hyd 22.30 ar y Sul. Hefyd gofynnir am hawl i weithredu o 11 hyd 2 y bore canlynol ar noswyl Nadolig a nos Calan ar ba ddyddiau bynnag y byddant yn syrthio. Dim sylw.

2. CG - Oedolion, Iechyd a Llesiant:

Llythyr yn holi am bobl oedd yn cysgu ar y stryd ac yn ddigartref, neu am leoliadau lle mae pobl yn cysgu allan. Ateb yr holiadur a nodi fod yna un wedi ei weld yn cysgu allan ond nad oedd neb yn ymwybodol o'i leoliad erbyn hyn.

3. JDC - Difrod:

Llythyr oddi wrth y gŵr ifanc a fu'n gyfrifol am dorri'r fainc lechen, gyda'i sglefr-fwrdd, yn ymddiheuro am y difrod a oedd wedi ei wneud. Damwain oedd y cyfan meddai, doedd dim bwriad i greu difrod. Derbyniwyd y llythyr.

4. Comisiynydd Heddlu'r Gogledd:

Ymgynghoriad ar y blaenoriaethau plismona. Mae nifer o gyfarfodydd ar y gweill gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i ymgynghori ar sut i wella'r drefn blismona. Mae'r cyfarfod agosaf ym Mangor yn Nghapel y Ffynnon, Ffordd Penrallt ar yr 8fed o Ragfyr am 6yh.

5. CG - Cefnogaeth Gorfforaethol:

Nodyn pellach ar Her Gwynedd a sut i ymateb i doriadau ariannol. Tynnir sylw at holiadur ar-lein y Cyngor (dyddiad cau 30/11/2015) sy'n rhestru adrannau sy'n debyg o weld cwtogi sylweddol. Mae nhw yn ymwneud â lonydd glas, gwarchodfeydd natur, AHNE Llŷn, glanhau strydoedd, llwybrau cyhoeddus, cynnal promenadau, meinciau ac arwyddion enwau stryd, canolfannau croeso, pontydd Aber ac Abermaw, Amgueddfa Lloyd George, Neuadd Dwyfor a thoileadau cyhoeddus. Gofynnir hefyd i gynghorau cymuned fynegi a oes ganddynt ddiddordeb cymeryd gofal am rai o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau uchod.

6. National Grid: Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru:

Cyfarfodydd cyhoeddus i ymgynghori ar linellau trydan o atomfa Wylfa Newydd. Y ddau gyfarfod agosaf, Y Felinheli, Neuadd Goffa 21 Tachwedd (10.00 - 16.00) a 24 Tachwedd Capel Berea Newydd, Bangor, (13.30 - 19.30). Dyddiad cau os am lythyru 16 Rhagfyr 2015. Penderfynwyd anfon gair i wrthwynebu unrhyw fwriad i gyfeirio'r llinellau a'r peilonau dros afon Menai Abergwyngregyn a Bwlch y Ddeufaen.

7. Cronfa Goffa RH Owen (Elusen):

Cafwyd cais am gymorth gan yr elusen hon sydd yn cynnig cymorth ariannol i gyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail ar ddechrau gyrfa. Dywedwyd fod y gronfa yn dioddef am nad oes cystal llogau ar gael erbyn hyn o fuddsoddiadau sydd gan yr elusen.

Penderfynwyd anfon llythyr i holi faint o bobl ifanc y plwyhwn a dderbyniodd arian yn y blynyddoedd diweddar, a faint o blwyfi eraill, ynghyd â faint o Gynghorau Cymuned dalgylch yr ysgol, sy'n cyfrannu tuag at gronfa'r elusen.

8. Dŵr Cymru:

Llythyr yn nodi fod y cwmni yn bwriadu cyfrannu arian tuag at gynllun cymunedol. Hyn yn dilyn trafferthion gyda llygredd yn y llyn ynghyd â gwaith a fydd ar y gweill i wella'r sustem rhwydwaith dŵr gwastraff. Dywedir fod Dŵr Cymru yn buddsoddi £5.2m yn y flwyddyn nesaf. Yn ogystal cynhaliwyd diwrnod agored gan y cwmni mewn gwesty lleol i ymgynghori. Roedd y Clerc wedi cylchlythyru'r aelodau gan fod peth brys am syniadau. Cynigiwyd nifer yn amrywio o wella cyflwr cae Dôl y Goeden i warchodfan bws neu lecyn bwrdd sglefrio. Hefyd soniwyd am oleuadau ar gyfer cae pêl-droed UEFA.

CYNLLUNIO:

APCE:

• NP3/15/E220 - Ymgynghoriad o dan Adran 37 o'r Ddeddf Trydan 1989 i uwchraddio gwifren foltedd uchel uwchben presennol ac i osod cyflenwad tan ddaearol - Gwastadnant, Nantperis. Dymuno gweld cymaint a phosib o linellau'n mynd o dan y ddaear.

MATERION ARIANNOL:

Cymorthdaliadau 2015/16

Timau Pêl-droed Bechgyn Llanberis 500.00

LLWYBRAU A'R FYNWENT ag ati:

Mae angen canllaw newydd ar Bont Meibion, Nantperis. Mae'r un bresennol braidd yn beryglus.

ADRODDIADAU O GYFARFODYDD ALLANOL:

1. Fforwm Agored Yr Wyddfa:

Cafwyd adroddiad gan y Clerc ar gyfarfod y Fforwm uchod a sefydlwyd yn dilyn tri chyfarfod i ystyried sut i wella rheolaeth Yr Wyddfa. Dywedwyd fod hwn yn gyfarfod braidd yn siomedig, o ran trefniadau ac arweiniad. Cafwyd cydnabyddiaeth fod problemau ynglŷn â gor ddefnydd o lwybrau, trafniadaeth, erydu a chreu trafferthion i ffermwyr. Cafwyd addewid gan gynrychiolydd CG fod y cyngor yn ystyried sustem drwyddedu ar gyfer digwyddiadau mawr a chychwyn cynllun peilot o drethu ymwelwyr (yn Llanberis). Adroddwyd fod cynlluniau felly yn llwyddiannus iawn mewn sawl ardal a sawl gwlad ar y cyfandir, ac ym Mro'r Llynnoedd yng ngogledd Lloegr. Mynegwyd siom nad oedd cynrychiolaeth o'r cynghorau cymuned lleol ar Weithgor y Fforwm. Bydd y cyfarfod nesaf yn dilyn y patrwm yma ymhen y flwyddyn.

Clwb 300 Enillwyr mis Rhagfyr oedd: £30: Mrs H. Williams, 8 Croes y Waun; £20: Mr John Gwynedd, Nant; £10: Mr Clive James, 18 Cae Gwyn, Caernarfon.

Noson Goleuo'r Goeden Diolch i Gyngor Cymuned y pentref, gosodwyd coeden Nadolig ar y tir gwyrdd o flaen y Ganolfan. Wedi i Llŷr (Vince, Rownd a Rownd), Bodrida, bwysu'r botwm i oleuo'r goeden cafwyd noson gymdeithasol yn canu carolau o amgylch y goeden dan arweiniad y Cynghorydd Eurig Wyn. Yna, yn y Ganolfan, cafwyd cerddoriaeth Nadoligaidd gan fand chwyth a chôr yr ysgol Gynradd a pharti canu Genod Gwryfai. Gwerthfawrogodd y gynulleidfa y baned a'r mins pei a oedd wedi ei pharatoi gan aelodau'r clwb Ieuenctid, dan ofal Paul Evans a'r elw yn cael ei gyflwyno i gronfa'r Ysgol. Diolch am noson ddiddorol a chymdeithasol. Dymunwn ddiolch i'r aelodau a drefnodd y gwaith gyda Mark Sykes a'i staff a Gwyn Parry a'i staff.

Disgo'r Nadolig Pwyllgor yr Ysgol Feithrin fu'n trefnu a chynnal orig fach o ddawnsio disgo i blant ifanc y pentref ac roedd y pleser a'r mwynhad yn amlwg yn wynebau'r rhai bach. Diolch i'r trefnwyr

Sioeau Nadolig yr Ysgol Eleni eto roedd rhieni, teuluoedd, ffrindiau, staff a disgyblion yr ysgol yn diolch yn canmol ac yn gwerthfawrogi'r gwaith paratoi a'r dysgu a oedd wedi cymryd lle cyn llwyfannu y Sioe Nadolig.

Diolch hefyd i staff a disgyblion Ysgol Uwchradd Brynrefail am eu Gwasanaeth Nadolig.

Eglwys y Waun Fore Sul, Rhagfyr 13, cynhaliwyd

Gwasanaeth Nadolig aelodau'r Ysgol Sul. Cafwyd drama fer o hanes geni'r baban Iesu a cherddoriaeth ar yr offerynnau, gyda Mrs Susan Williams, Ceunant, yn cyfleu'r hanes drwy ddarlleniadau a charolau.

Noswyl y Nadolig Cafwyd orig fach o wasanaeth wedi ei threfnu gan Mererid Llwyd, Cae Rhos. Diolch iddi am ddenu talentau'r pentref i gymryd rhan a chreu awyrgylch a naws yr Ŵyl Cyflwynwyd y casgliad o £160 i Gronfa Meddygfa Liverpool House. Diolch i bawb.

Cynhaliwyd Gwasanaeth o ganu carolau yng ngolau canhwyllau yn Eglwys Betws Garmon hefyd ac roedd cynulleidfa dda yno.

Dymunwn ddiolch i aelodau Clwb Ieuenctid y pentref am eu dymuniadau da dros Ŵyl y Nadolig y maent yn eu rhannu, drwy gerdyn, o dŷ i dŷ yn y pentref.

Diolch i'r rhai fu'n addurno eu cartrefi ac yn cyfleu naws hapus Gŵyl y Nadolig yn y pentref.

Gwyntoedd a Glaw Teimlwn yn drist dros y teuluoedd a gafodd lanast dŵr yn eu cartrefi yn ystod gwyliau'r Nadolig. Mawr obeithiwn ei fod wedi clirio erbyn hyn ac eich bod wedi dod yn ôl i drefn.

Gweithred Ddewr Rwy'n siŵr ein bod yn falch o Mal Burns, Ty'n Rhodd, am ei weithred ddewr yn mentro gyda un o Fethel i lifogydd dwfn i achub cwpwl o'u car a oedd dan ddŵr ar ffordd Crawiau.

Dathlu Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau i Cian McDermat, Teras Eilian ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 18 mlwydd oed ac i Ceri Thomas, Stad Dôl Erddi ar gyrraedd ei un ar hugain mlwydd oed. Gobeithio ichi fwynhau y

dathlu a phob dymuniad da ichi i'r dyfodol.

Genedigaeth Llongyfarchiadau i Fiona a Tomos ar enedigaeth mab bach, Cian, brawd i Caio. Ŵyr i Karen a Michael, Stad Bro Waun a gor-ŵyr i Megan Williams, Bryn Difyr a Mrs Maggie Jones, Glasfryn Teras, Glyn Afon.

Llongyfarchiadau i Elin (Arfryn gynt) a Hywel ar enedigaeth mab bach, Guto Emlyn, brawd a ffrind newydd i Nel ac ŵyr i Rhian. Gorffwysfa.

Priodas Ym Mhlas Rhianfa, Ynys Môn, priodwyd Kirsty Jones, Cynefin a Steven Ross o Fangor. Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd ichi ar eich priodas ac yn eich cartref ym Mangor.

Gwellhad Buan Anfonwn ein cofion at rai o'r pentref sydd heb fod yn dda eu iechyd ac wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty neu gyda pherthnasau. Hyderwn yn fawr y byddwch yn gwella a chael dod adref i'ch cynefin.

Mae'n dda deall fod Rhian, Melfyn, Stad Tŷ Hen, yn gwella wedi iddi gael anaf mewn damwain car yn ddiweddar.

Yn y rhaglen 'Ward y Plant' ar y teledu gwelwyd Tomi Llywelyn, ŵyr Gill a Duncan Brown yn cael triniaeth. Gobeithio dy fod yn well, Tomi.

Treuliodd Steven a Paige, Teras Glyn Afon, gyfnod y Nadolig mewn ysbyty ym Manceinion gyda'u mab bychan, Patrick, a oedd yn bur wael. Mae'n braf

cael dweud ei fod wedi troi at wella a'u bod wedi cael dod adref. Bu ei ddwy chwaer fawr, Rebecca a Jessica, yn genod da iawn i nain.

Cydymdeimlo Daeth newyddion trist am farwolaeth tri oedd â chysylltiad â'r pentref. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teuluoedd yn eu galar.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwys at Anita Pierce a Gwynant yn Llanrug yn eu profedigaeth o golli priod a thad annwyl. Roedd Goronwy wedi ei fagu yn y Waun ac wedi byw yma hyd yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn â Mr Huw Griffith a'i feibion, John a Geraint a'u teuluoedd, yn eu profedigaeth o golli priod a mam annwyl, sef Mrs Eirlys Griffith a fu'n bostfeistres hynod o annwyl a charedig yma am gyfnod.

Yn dawel yng nghartref preswyl Willow Hall, Caernarfon, a hithau ychydig wythnosau yn ôl wedi cyrraedd ei 106 mlwydd oed, bu farw Mrs J.D. Roberts, Bryn Teg (gynt). Cydymdeimlwn yn ddwys â'i mab, Huw, a'r teulu yn eu colled a'u hiraeth.

Diolch Yn rhifyn mis diwetha o'r Eco diolchodd Marian i Wasg Dwyfor am eu cydweithrediad ac i'r ddau ddreifar sydd mor barod i helpu. Dylem ninnau ddiolch iddi hithau am drefnu amser casglu yr Eco bob mis a'n ffonio i adael inni wybod. Diolch Marian.

Eglwys y Waun Trefn Gwasanaethau mis Chwefror

- 7: Cath Williams
- 14: Cyfarfod Gweddi
- 21: Mr T. Alun Williams
- 28: Mr John Roberts

Bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod hefyd.

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
YR ŴYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

ORIEL CWM
CWM Y GLO
Gwasanaeth fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artistiaid lleol
Richard S. Humphreys
Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882

BOSCH Service
Car Service
www.a-v-w.co.uk
01286 673559
CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU
AVW **BOSCH Car Service**

Ysgol Waunfawr



Gemau Traddodiadol Yn unol â dymuniad y Cyngor Ysgol daeth y plant i'r ysgol ddydd Gwener diwethaf mewn 'pyjamas' neu 'onsie' a chafwyd cyfle i gyd chwarae gemau bwrdd yn y prynhawn.

Gardd Lysiau Hoffem fel ysgol ddiolch o galon i Rhodri Sion am roi o'i amser i ail wneud y gwelyau llysiau yng nghae'r ysgol. Diolch hefyd i Gwilym am roi tail, argoeli'n dda felly am lysiau yr haf yma. Hoffai plant a staff yr ysgol ddymuno blwyddyn newydd dda i holl ddarllenwyr yr Eco. Bu'n ddiwedd tymor prysur fel arfer.

Ymgrych y Plentyn Dydd Mercher, Tachwedd y 25ain, casglwyd 52 o focsys ar gyfer Ymgrych y Plentyn. Diolch i bawb a fu'n brysur yn paratoi'r bocsys. Byddant yn siŵr o ddod â gwên i blant bach y Dolig hwn.

Cinio Nadolig a Ffair Cafwyd cinio Nadolig blasus ddydd Mercher, Rhagfyr yr 8fed, pawb wedi gwisgo mewn siwmpwr Nadoligaidd a chasglwyd £60 tuag at Gronfa Achub y Plant. Yn y nos cynhaliwyd ein Ffair Nadolig ac roedd hi'n braf gweld yr ysgol yn llawn o rieni a phlant.

Canu Carolau Bu'r disgyblion yn canu carolau yn noson Miri Siôn Corn yn yr Antur ddiwedd fis Tachwedd yn ogystal â chanu o

gwmpas y Goeden Nadolig yn y pentref ddechrau fis Rhagfyr.

Sioeau Nadolig Cafwyd tair sioe Nadolig lwyddiannus iawn yn y Ganolfan. Diolch i'r plant a'r staff am eu gwaith clodwiw a diolch i'r rhieni hynny a fu'n helpu gyda'r system sain ac wrth y drws. Diolch i Paul Griffiths am ffilmio'r sioe - mae DVD ar werth yn yr ysgol am £4.00 yr un.

Cyngerdd dosbarth Meithrin Daeth rhieni'r plant Meithrin i'r ysgol fore ddydd Gwener, Rhagfyr y 18fed, i glywed y plant yn canu a chael paned a mins pei. Roedd y plant yn werth eu gweld yn eu gwisgoedd a chyn mynd adref daeth Siôn Corn ag anrheg iddynt.

Antur Diolch i Dewi a'n cyfeillion o'r Antur a fu'n brysur yn cydweithio gyda disgyblion yr Adran Iau i wneud addurn Nadolig ddiwedd y tymor - roedd y boncyffion coed werth eu gweld. Roedd plant Adran y Babanod wedi eu cyfareddu wrth gael brecwast gyda Siôn Corn yn yr Antur ddiwedd y tymor. Diolch i Tracy a Dianne am baratoi y brecwast.

Myfyrion Ianws

Mis Ionawr yw mis Ianws...
plaen pob ddoe, yfory'r plws!

Fel y tlodion, daeth bugeiliaid
a byddigion – sêr ddewiniaid...
'bod' mae gwerin drwy yr oesau
ond 'dod' mae'r beilch mewn cyfnodau.

Efa

Y gwynt yw ein helynt ni
anian ystorm eleni
o annedd llwybrau cynnes
ei grym ddaw a'r glaw fel les.

Cardiau'r Wyl

Rhes ar res ar silff y dreser,
ddwêd am rawd a rhod ac amser...
hwn a hon- mor falch yw'r cofio,
hwn a hon yn fwllch sy'n brifo

Rhyfeddod

Yng nghanol, canol - gaeaf
fe gafwyd sbloet ryfeddaf-
Cennin Pedr, Ceiriosen binc
'Ront winc drwy'r tywydd garwaf.

Amser

Nid ydyw 'nawr' ond hicyn
ar linell bell, ddiderfyn
ein braint, bob un, yw byw a bod
am gyfnod ar y llinyn.

Tywydd yw'r testun mae pawb yn arbenigo,
tywydd yw'r testun all neb wneud dim amdano!

Plant

Eu prif nodwedd – rhyfeddu
â'r rhinwedd braf, dychmygu,
tra'n chwarae, chwerthin, crio dro,
daw'r prifio drwy eu caru.

Enwau'r Stormydd

Mae gan hen ŵr y tywydd
hen lyfr o enwau bedydd,
ond 'leni, chwilio mae mewn cur
am awdur casgliad newydd.

Beibl.net

Ei swydd, yw helpu'r Jet set, a mae'r iaith
mor hawdd – fel llac-grosiet,
ond nid nes neges dot net
na sylwedd Morgan solet!

Blwyddyn naid

Bydd pedair awr ar hugain
bob pedair mlynedd gyfain
yn rhoi i'r byd y flwyddyn naid
ar laid 'mis bach' a'i ochain

Llifogydd

Echdoe Llanelwy, ddoe Gwlad yr Haf
Heddiw Cumbria a'i erwau braf
'Pa hyd fy Nuw?' – ie – pa hyd
yw geiriau'r werin i'r gwleidydd clyd.

Chwarae i Gymru.

Y mis diwethaf llongyfarchwyd carfan o Goleg Menai, oedd yn cynnwys bechgyn o'r fro, a fu'n cynrychioli Cymru yn Nhîm Colegau Cymru dan 19 oed ar eu buddugoliaeth yn erbyn Yr Alban. Yn ddiweddarach yn y mis cawsant fuddugoliaeth arall, gan drechu Ysgolion Annibynnol Lloegr o 2-0. Capten y tim yw Ifan Emlyn o Lanrug. Mae Cai Owen o Ddeiniolen hefyd yn chwaraewr rheolaidd, ac wrth gwrs, un arall o hogia'r fro, Marc Lloyd Williams yw'r rheolwr. Ar Chwefror 3ydd byddant yn chwarae yn erbyn Colegau Lloegr yng Nghasnewydd cyn dychwelyd i'r Eidal ar ddechrau mis Mawrth ar gyfer twrnameint Roma Caput Mundi.

Llongyfarchiadau hefyd i Rhun Williams o Lanrug a ddewiswyd i garfan rygbi dan 20 oed Cymru ar gyfer gemau'r chwe gwlad yn ystod y ddeufis nesaf.

Y GLAW YN DAL I REOLI

Prin iawn fu'r gemau pêl-droed eto yn y mis diwethaf. Os bydd hyn yn parhau bydd cryn grafu pen i gadw hyd y tymor o fewn terfynau rhesymol.

Bu'r gemau cynghreiriol yn brin iawn er i Lanrug roddi gêm dda i ffwrdd yn Abergele cyn colli o 2-1. Wedi sawl gohiriad trosglwyddwyd y gêm gwpan Cookson rhwng Llanberis a'r Bermo i Faes Padarn. Da o beth oedd hynny, ar y trydydd cynnig, gyda'r Darans yn ennill o 3-0, Dafydd a Llion Jones a Gavin Edwards yn rhwydo.

Mae'r Waunfawr yn dal ar frig Cynghrair Gwynedd, ond mae'n dynn iawn ar y brig.

Daeth hi'n adeg gwahanu i'r ddau set o 6 yn y Gynghrair Genedlaethol. Eleni, yn fwy nag erioed, amlygwyd cryfder y Gogledd yn y strwythr.

Ymysg y chwech uchaf fydd yn cystadlu am leoedd ffrwythlon ariannol Ewrop mae TNS, Bala, Llandudno, Cei Cona, Airbus a'r Drenwydd. Fawr o waith teithio yno, felly arbed tipyn o gostau i'r clybiau. Diddorol fydd sylwi a fydd y torfeydd yn cynyddu gyda chefnogwyr yn teithio i gemau oddi-cartref.

Bydd yn gyfnod costus i Fangor. Wedi gorffen yn seithfed ac yn gorfod brwydro am gynnal y safle hwnnw ar gyfer y gêm ail-gyfle diwedd y tymor i geisio cyrraedd Ewrop. Yn eu wynebu bydd teithiau i Gaerfyrddin, Hwlfordd, Port Talbot, Aberystwyth a'r Rhyl. A hwythau eisoes allan o Gwpan Cymru, bydd gofyn am rediad llwyddiannus neu bydd torfeydd Nantporth yn rhy fychan i gynnal y costau.

Bydd yn ail hanner 'ddiddorol' iawn am sawl rheswm draw yn Nantporth eleni.

Eto, mae tîm Academi Bangor dan 19 – sy'n cynnwys sawl chwaraewr o'r fro yma - yn ddiguro mewn 11 gêm. Pryd y cawn nhw gyfle yw'r cwestiwn mawr.



Blwyddyn Lwyddiannus i Glwb Antur Dyffryn Peris



Roedd 2015 yn hynod o brysur a llwyddiannus i Glwb Antur Dyffryn Peris. Mae'r adran rhwyfo Cychod Celtaidd wedi cychwyn o'r newydd, efo aelodau yn cymryd rhan mewn nifer o rasys Cymdeithas Rhwyfo Mor Cymru. Dros y tymor, enillwyd nifer o wobrau yn y categori i ddechreuwyd, a phawb wrth eu boddau! Aeth 6 aelod i Lundain i gystadlu yn y Great River Race, 22 milltir o rwyfo i fyny'r Tafwys. Ar ddiwedd y tymor, cyflwynwyd 2 wobwr arall i'r clwb gan Gymdeithas Rhwyfo Mor Cymru - Enillwyr Dechreuwyd Cynghrair y Gogledd, a gwobr am y Clwb Newydd Gorau.



Y llynedd hefyd, dewisodd Canŵ Cymru gyd-weithio efo Clwb Antur Dyffryn Peris ar gyfer sesiynau hyfforddi ceufadau sbrint. Mae hyn yn brosiect cyffrous iawn, wrth chwilio am ddarpar ceufadwyr ar gyfer cystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol y dyfodol. Mae gan y Clwb safle we newydd sydd yn dangos yr holl weithgareddau sydd ar gael wrth ymuno. Mae croeso cynnes i aelodau hen a newydd ymuno yn y sesiynau (gweler safle we am fwy o fanylion www.clwbantur.com).

YN OES DINIWEIDRWYDD

Pump o'r gloch daw i'n t?
â'n nerfau yn cynhyrfu;
Fy nhad a'i glust i'r radio
daeth ei dranc, a geid wyth draw?
Caiff start, un gêm gyfartal
yr un dic, mae'r wefr yn dal.
Hen dro, ildio wnaeth Oldham
yn ddi-ffael Spurs sy'n cael cam.
Â'i lais gwyich, Laddell y sgôr
yn treisio breuddwyd trysor.
O'r rhes wyth gêm, ceir saith gwall,
ei eiriau "daw tro arall".
Un cip a chwalu'r coupon
ar y Sul bydd fawr o sôn.
Er colli pres, caed pleser
a'r hwyl o ddewis yw'r her.

Dyma ran o'r gerdd 'Pleserau' a luniwyd dro yn ôl. Profiad yng nghof llawer ohonoch mae'n si?r. Diwrnodiau Littlewoods a Vernons a'u tebyg. A'r cyfan yn costio rhyw chwe cheiniog(hen bres) y llinell. Y dyddiau hynny a'r wlad bron iawn yn d?ad i stop ar gyfer Sports Report am 5pm. Dim sôn am Soccer Saturday a Final Score. Y gemau wedi eu chwarae ar feysydd yn drybolau o fwd. Y chwaraewyr yn ennill uchafswm o £20 yr wythnos. Y dilynwyd yn sefyll ar y terasau. Mor ddiniwed mae'r sefyllfa yn edrych yng ngolwg oes y 'rollover', y scratchcards, yr online betting, y spot betting. Yr hysbysebu di-stop yn cynnig y free-bet a'i debyg. Oes, mae gennym ni lawer i ddiolch amdano, bellach ble rydym yn dilyn ein timau hyd grogi, heb sefyll o'n cadeiriau esmwyth o flaen y teledu. Gemau byw o Brydain, Sbaen, Yr Iseldiroedd, Yr Eidal, Awstralia, De America, Yr Almaen ... A chyfle i fetio ar bob un ohonynt. Heb sôn am y campau eraill fel criced, tenis, athletau. Mor lwcus ydyn ni. O ia, mae'r canlyniad yn cael ei drefnu o flaen llaw, hefyd!

Pêl-droed Ieuencid Cymru

Ar Rhagfyr 16, roedd timau merched a hogia Colegau Cymru yn chwarae yn St George's Park yn erbyn timau Colegau Lloegr. Roedd tri o'r ardal yma yn rhan o garfan Colegau Cymru, sef Lois Regan o Ddeiniolen yn chwarae gyda'r merched ac sydd bellach yn mynychu Coleg Y Cymoedd, Ystrad Mynach; Cai Owen o Ddeiniolen ac Ifan Emlyn Jones o Llanrug, y ddau yma yn mynychu Coleg Menai ym Mangor. Curo'r Saeson wnaeth y ddau dim, 5-0 i'r genod, a 2-0 i'r hogia.

Record Am Byth

Beth oedd eich barn am yr hogyn o India a sgoriodd dros 1000 o rediadau mewn un batiad. Ni thorrir y record hon yn sicr. Pwy tybed oedd yn cadw'r sgôr? Ac mewn pa fath o lyfryn? Beth fydd gwerth y darn papur yna mewn ocsiwn mewn blynyddoedd i ddod, tybed? 113 mewn 67 pelen yn erbyn Yr Wyddgrug oedd fy sgôr uchaf i. Pitw o'i gymharu. Wn i ddim beth oedd hyd batiad yr Indiad ifanc. Ond cofiaf ddau fatiad hir yn ystod fy ngyrfa. Y cyntaf oedd yn Ysgol Llandegai, ble un haf batiais am ddau ddiwrnod heb fod allan (amser chwarae bore, cinio a phnawn y ddau ddiwrnod.) Daeth y marathon i ben pan aeth un o'r plant i gwyno i'r Prifathro. Daeth ef allan i'r cae a chymeryd y bat oddi arnaf. Wn i ddim faint o rediadau sgoriwyd, ond gyda phêl tenis ar 'lain' anwastad roedd hynny'n gamp, onid oedd? Yr ail oedd mewn gêm brawf derfynol i dîm dan 18 Ysgolion Cymru draw yn y Trallwng. Gêm dau ddiwrnod - Gogledd v De. Yn 16 oed roeddwn yn un o'r ieuengaf yno. Roedd geiriau Tommy Glyn fy 'athro' criced yn glir yn fy meddw. "Paid â thafu dy wiced i ffwrdd." Wnes i ddim, a batio am bedair awr a hanner gan sgorio 64 hfa. Unwaith eto daethpwyd â'r batiad i ben gan bŵer allanol - un o'r dewiswyr yn dweud eu bod wedi 'gweld digon'. Yn amlwg, roeddwn wedi profi fy hun, ac arweiniodd y batiad hwnnw i'r cyntaf o 15 o gapiau. Daw gwên i'r wyneb pan feddyliaf sawl cerydd a gefais dros y tymhorau am fy mod unwaith eto wedi 'taflu' fy wiced i ffwrdd. Mae'n rhaid fod rhyw agwedd hunanol fel Boycott ynof - ar adegau!

Chwaraeon

Helgwn Llwybrau Y Weilgi

Roedd adroddiad diweddar yn cyhoeddi mai Arfordir Môn ydy'r lle ail-fwyaf poblogaidd ym Mhrydain erbyn hyn ar gyfer ymweliadau byrion. Yn sicr, mae datblygiad llwybr yr arfordir wedi bod yn gryn dynfa.

Rwyf yn gerddwr cyson hyd y glannau, yn enwedig y mannau gorllewinol. Bu'n symbyliad i sawl englyn a cherdd ac yn grud i ambell gadair.

Ar un o fy nheithiau yn ddiweddar, dod ar draws Alun Hughes o Lanberis, y ffotograffydd talentog. O holi, ces wybod ei fod yno i wylïo ei fab, Owen, yn syrffio'r tonnau. Ac roedd hi'n wyntog a'r cesyg gwyn yn brasgamu. Yr oedd rhyw 20 allan yn syrffio, a braf oedd sylwi bod y mwyafrif yn lleol, a'r cyfan o ogledd Cymru. Braf hefyd oedd clywed y Gymraeg yn sgwrs naturiol y syrffwyr.

Cefais wybod fod ambell i le delfrydol ar yr arfordir yma gan fod sawl bae cul a chyfeiriad y gwynt yn creu'r sefyllfa ddelfrydol i herio gallu'r syrffwyr. Manteisiais ar y cyfle i gyfweld Owen, sy'n athro yn Ysgol Dolbadarn.

Bu Owen yn ymwneud â'r gamp ers ei fod yn 18 oed. Wedi llwyddo gyda'r prawf gyrru agorwyd byd newydd iddo yn dilyn y tonnau. Daeth yn gyfarwydd â rhai o brif atyniadau y gamp led-led Prydain ac Iwerddon. Draw i Thurso yn yr Alban, a'r ddau atyniad gwych yn ardaloedd Bundoran a Lahinch yng Ngorllewin Iwerddon. Nifer o fannau heriol hefyd yng Nghernyw a De-ddwyrain Lloegr.

Ond mae Owen yn syrffiw'r 'rhyngwladol' hefyd. Eisoes aeth ar dramp i Chile, Indonesia, Ffrainc, Sbaen a Phortiwgal. Yn ystod gwylïau'r Pasg mae'n bwriadu mentro dramor eto.

Am y ddau Nadolig diwethaf bu Owen dramor yn Lanzarote a Fuerteventura yn Sbaen. Mae'r lleoliadau hyn ymysg ei ffefrynnau. Y rheswm yw'r 'swells' arbennig yn taro yn erbyn y 'reefs' folcanaidd du. Atyniad arall yw'r dŵr tryloyw, er ei fod yn amlygu'r gwaelod garw bach yn ormod weithiau!

Mae'r gymuned syrffio yng ngogledd Cymru yn gymuned gymharol glos ac mae'r agwedd gyfeillgar a chynhaliol yn yr ardal i'w channol. Mae sawl wyneb cyfarwydd i'w gweld yn yr amrywiol sesiynau yn ymestyn o Ben Llŷn i arfordir Môn.

Roedd Owen yn ymfalchio fod y gamp yn apelio fwy-fwy at bobl lleol a nifer yn Gymru Cymraeg. Mae'r 'gymdeithas' yn barod iawn ei chroeso.

Un elfen gadarnhaol yw fod y gamp hefyd yn gallu creu swyddi. Cyfeiriodd Owen at gwmni Y Cwt Trwsho sydd wrth law i drwsïo'r 'byrddau'. Perchennog y cwmni yw Guto Roberts, sydd yn syrffiw'r ei hunan.

Diolch i Owen am ein tywys i faes diddorol iawn. A gallaf eich sicrhau mai nid y 'crach' na'r Hoo-hah Henrys a welais ar arfordir Môn y pnawn hwnnw.

Unwaith eto amlygir mor ffodus ydym o'n tirlun ar fôr a thir sy'n cynnig cyfleon i ni ym myd y campau.

